Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
| --- | --- |
| **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | **GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 20 EBRILL 2021 am 2:00 y. p.** | **TUESDAY, 20 APRIL, 2021 at 2:00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | **VIRTUAL MEETING** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones, Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2021.

3 **DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH A BLAENORIAETHAU ARCHWILIO MEWNOL 2020/21** (Tudalennau 15 - 20)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 **MATERION A RISGIAU ARCHWILIO MEWNOL SYDD ANGEN SYLW** (Tudalennau 21 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

5 **STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL DDRAFFT 2021/22** (Tudalennau 33 - 48)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

6 **ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2021 - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 49 - 64)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

7 **NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL SY'N EFFEITHIO'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 65 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **ADRODDIAD CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU** (Tudalennau 69 - 76)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad.

9 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 77 - 80)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)(Isgadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS)<br>Prif Archwilydd (NW)<br>Rheolwr Hamdden Masnachol (GR) (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Griffiths, Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr), Mr Dylan Williams (Dirprwy Brif Weithredwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Mr Alan Hughes (Archwilio Cymru) Uwch Archwilydd (NR), Uwch Archwilydd (BJ), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (JHJ), Mr Gareth Wyn Williams, Gohebydd Democratiaeth Leol |

---

Oherwydd bod y Cynghorydd Peter Rogers, Cadeirydd y Pwyllgor, yn cael trafferthion cysylltu dros dro, etholwyd Mr Dilwyn Evans yn Gadeirydd i ddechrau'r cyfarfod a chymerodd yr eitem gyntaf ar yr agenda. Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan y Cynghorydd Rogers.

### 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd Mr Dilwyn Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Wrth iddo gael ei benodi cyfeiriodd Mr Dilwyn Evans at ei ragflaenydd yn swydd yr Is-gadeirydd a'i gyd-aelod lleyg ar y Pwyllgor, Mr Jon Mendoza a oedd ers hynny wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Pwyllgor gan ddweud ei fod wedi mwynhau gweithio ochr yn ochr â Mr Mendoza yn ystod ei gyfnod ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

### 2. DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Peter Rogers ddatgan diddordeb personol yn eitem 10 ar yr agenda.

Talodd y Cynghorydd Rogers ei deyrnged ei hun i'r cyn-Aelod Lleyg a'r Is-gadeirydd, Mr Jon Mendoza yn dweud ei fod yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar am ei gyfraniad fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor. Ategwyd y teimladau hynny gan weddill aelodau'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at Mr Jon Mendoza i ddiolch iddo am ei gyfraniad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei gyfnod fel Aelod Lleyg ac i ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.**

### 3. AELOD LLEYG NEWYDD AR GYFER Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi'r ystyriaethau o ran newid Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd y mater wedi codi yn dilyn ymddiswyddiad Mr Jonathon Mendoza fel Aelod Lleyg o'r Pwyllgor gyda'i gyfarfod diwethaf ar 1 Rhagfyr 2020.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod o leiaf un aelod o'i Bwyllgor Archwilio yn aelod lleyg. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymestyn y gofyniad hwn; mae darpariaethau ei Gyfansoddiad yn caniatáu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gynnwys dau aelod lleyg i wasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd y Cyngor h.y. 5 mlynedd, tan fis Mai 2022 ar hyn o bryd. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a basiwyd ar 20 Ionawr 2021 yn cyflwyno newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ffurf enw newydd, swyddogaethau a chyfrifoldebau ychwanegol ac mae'r Ddeddf hefyd yn diwygio aelodaeth y Pwyllgor gan ei gwneud yn ofynnol i draean o'i aelodau fod yn aelodau lleyg. Os bydd y Pwyllgor yn parhau gydag 8 aelod etholedig, byddai'n ofynnol felly cael 4 aelod lleyg. Bydd hefyd yn ofynnol i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg. Er nad yw'r dyddiad y bydd y darpariaethau newydd yn dod i rym wedi'u cadarnhau, yn dilyn ymholiadau a wnaed gyda Llywodraeth Cymru gan CLlLC deellir mai'r bwriad yw y bydd enw newydd y Pwyllgor a'r swyddogaethau/cyfrifoldebau newydd yn dod i rym o fis Ebrill 2021 ac y bydd y newidiadau i aelodaeth yn dod i rym o fis Mai 2022. Felly, bydd yn rhaid i'r Cyngor gynnal ymarfer recriwtio yn 2022 i recriwtio'r aelodau lleyg i baratoi ar gyfer y newid hwn.

Yng ngoleuni'r uchod, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a oedd am recriwtio aelod lleyg newydd am weddill y tymor h.y. tan fis Mai 2022 neu fod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei newid i leihau nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen i un hyd nes y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym.

Wrth ystyried y mater, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch yr amserlen recriwtio a'r tebygolrwydd o lwyddiant o ystyried y cyfyngiadau presennol sy'n gysylltiedig â'r pandemig a'r ffaith bod y tymor yn fyrrach - tan fis Mai 2022 - a allai olygu nad oes cymhelliant i wneud cais i ymgeiswyr posibl.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddfa Adran 151 fod y broses recriwtio yn cymryd amser o'r hysbyseb gychwynnol hyd at y penodiad, sy'n golygu ei bod yn annhebygol y penodir aelod newydd cyn mis Ebrill/Mai. Yn ogystal â hynny dylid ystyried costau hysbysebu'r swydd a'r amser sydd ei angen i unrhyw un a benodir setlo a dod yn gyfarwydd â'r ffordd y mae'r Pwyllgor yn gweithredu o ystyried y nifer cyfyngedig o gyfarfodydd a gynhelir tra bydd yn ei swydd cyn i'r broses recriwtio ddechrau eto. Am resymau ymarferol felly, credai mai'r ail opsiwn, sef parhau ag un aelod a diwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hynny hyd nes y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym yw'r opsiwn gorau o dan yr amgylchiadau.

Er bod y rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor yn cytuno mai'r ail opsiwn h.y. diwygio'r Cyfansoddiad i ganiatáu i'r Pwyllgor barhau ag un aelod lleyg nes i'r newidiadau i'w gyfansoddiad ddod i rym - ym mis Mai 2022 - pan allai'r Pwyllgor wedyn ddechrau o'r newydd gydag aelodaeth newydd, yw'r ffordd fwy rhesymol ymlaen. Credai lleiafrif o'r aelodau, er gwaethaf y materion ymarferol wrth geisio recriwtio ar hyn o bryd, y byddai'r arbenigedd, yr wybodaeth a'r persbectif annibynnol ychwanegol y gallai ail aelod lleyg eu cynnig i'r Pwyllgor o fantais iddo ac yn unol â hynny roeddent o blaid recriwtio am y rheswm hwnnw.

DRAFT

Yn y bleidlais a ddilynodd, cynigiwyd diwygio'r Cyfansoddiad i leihau nifer yr aelodau lleyg sy'n ofynnol ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ddau i un.

**Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor i leihau nifer yr aelodau lleyg sy'n ofynnol ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ddau aelod lleyg i un, hyd nes y daw darpariaethau'r ddeddfwriaeth newydd i rym.**

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o hyn –

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg at y pwynt a godwyd yn y drafodaeth ar Adroddiad Blynyddol Seiberddiogelwch ar gyfer 2019/20 ynghylch sicrhau bod aelodau nad ydynt yn gynghorwyr sydd ar Bwyllgorau'r Cyngor ac sydd â mynediad at ystod o wybodaeth yn cael eu cynnwys mewn hyfforddiant a phrotocolau seiberddiogelwch, ac eglurodd, ar ôl gwneud ymholiadau gyda Thîm Hyfforddi a Datblygu Adnoddau Dynol, y gallai gadarnhau bod dau aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hyd yma wedi cwblhau'r modiwl E-ddysgu ymwybyddiaeth seiberddiogelwch. Ychwanegodd, gan fod ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn orfodol, bod aelodau nad ydynt eto wedi cwblhau'r modiwl yn cael eu cynghori i drefnu amser i wneud hynny. Er mwyn hwyluso'r broses byddai'n cysylltu â Thîm Hyfforddi a Datblygu Adnoddau Dynol i ofyn i nodyn atgoffa gael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor ynghyd â chanllawiau ar gael mynediad i'r Porth E-Ddysgu.

**CAM GWEITHREDU: Pennaeth Archwilio a Risg i gysylltu â Thîm Hyfforddi a Datblygu Adnoddau Dynol i ofyn i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nad ydynt eto wedi cwblhau'r modiwl E-ddysgu ymwybyddiaeth Seiberddiogelwch gael eu hatgoffa i wneud hynny a bod canllawiau ar gael mynediad i'r Porth E-Ddysgu yn cael eu darparu hefyd.**

## 5. CYNGOR SIR YNYS MÔN – CRYNODEB ARCHWILIAD BLYNYDDOL

Cyflwynwyd adroddiad Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2020 ar gyfer Sir Ynys Môn gan Archwilio Cymru i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn dangos y gwaith archwilio a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, 2019 y mae'n ei ddisodli ac yn cyfeirio at ddarnau o waith sy'n ymwneud yn benodol â'r Cyngor gan gynnwys adroddiadau a gyhoeddwyd gan Arolygiaethau eraill yn ogystal ag astudiaethau ac arolygiadau cenedlaethol.

Wrth gyflwyno Crynodeb yr Archwiliad cadarnhaodd Mr Alan Hughes, Archwilio Cymru fod yr adroddiad yn darparu crynodeb o waith archwilio'r flwyddyn yn y Cyngor ac yn genedlaethol a'i ganlyniad, ac nad oes unrhyw faterion na phryderon newydd i'w hadrodd yn codi.

Wrth ystyried yr adroddiad codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Y newidiadau demograffig rhagamcanol ar Ynys Môn y tynnwyd sylw atynt yn adran ffeithiau allweddol yr adroddiad a'u goblygiadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau. Nododd y Pwyllgor y rhagwelir y bydd poblogaeth yr Ynys yn gostwng 0.6% rhwng 2020 a 2040 o 69,896 i 69,499, gan gynnwys gostyngiad o 5% yn nifer y plant, gostyngiad o 8.3% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 22.7% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd.

  Wrth gydnabod y pwynt, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod newidiadau mewn demograffeg yn dylanwadu ar faint o gyllid y mae'r

Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru drwy'r fformiwla ariannu gan fod nodweddion y boblogaeth yn ffactor yn y ffordd y caiff cyllid ei ddosbarthu ymhlith awdurdodau lleol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r cynghorau mwy gwledig yng Ngogledd a Gorllewin Cymru wedi gwneud cystal â chynghorau yn y De o ran y fformiwla ariannu sy'n deillio'n bennaf o newidiadau demograffig gyda chyfran gynyddol o'r boblogaeth o oedran gweithio yn symud i ganolfannau trefol mwy. O ganlyniad, mae gan y newid hwn oblygiadau i'r cynghorau hynny sydd wedi gweld gostyngiad yn y boblogaeth sy'n gweithio gan fod hyn wedyn yn cael ei adlewyrchu yn y swm o arian a gânt fel rhan o'r Grant Cynnal Refeniw. Yn y tymor hir gall y gostyngiad mewn cyllid o ganlyniad i newidiadau i'r boblogaeth arwain at broblemau gan fod yn rhaid i'r cynghorau hynny sydd ar eu colled wneud iawn am y diffyg naill ai drwy dorri gwasanaethau neu drwy godi trethi. Felly mae gan newidiadau demograffig oblygiadau i gyllideb y Cyngor yn ogystal ag ar gyfer cynllunio gwasanaethau.

- Yr oedi wrth ardystio hawliadau budd-daliadau Tai. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod yr archwilwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer y gwallau a nodwyd yn uwch nag y byddent wedi'i ddisgwyl, a'u bod yn digwydd yn rheolaidd, ac felly'n codi pryderon am drefniadau rheoli ansawdd a'r sail ar gyfer nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi staff sy'n gweithio yn y maes hwn. Holodd y Pwyllgor am y cynnydd o ran diweddaru'r sefyllfa a gofynnodd hefyd am sicrwydd o ran y materion hyfforddiant a threfniadau ansawdd a godwyd.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Resources/Swyddog Adran 151 fod Archwilio Cymru wedi cwblhau ei waith ar gais am gymhorthdal grant Budd-dal Tai 2017/18 a bod y llythyr archwilio i'w anfon at yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn rhyddhau'r cymhorthdal y cytunwyd arno a chwblhau'r gwaith. Mae'r gwaith profi sylweddol ar hawliadau cymhorthdal 2018/19 a 2019/20 yn parhau a'r amcan yw cwblhau'r gwaith a chyhoeddi'r llythyr archwilio ar gyfer cais am gymhorthdal 2018/19 erbyn diwedd mis Mawrth, 2021 ac erbyn diwedd Mai, 2021 ar gyfer cais am gymhorthdal 2019/20. Os cyflawnir yr amserlen hon, gall gwaith ganolbwyntio wedyn ar gwblhau cais am gymhorthdal 2020/21 erbyn mis Tachwedd, 2021, sef yr amserlen arferol. Ychwanegodd y Swyddog fod y sefyllfa wedi gwella'n fawr a bod cynnydd wedi'i wneud; mae staff yr Awdurdod yn y maes hwn a'r archwilwyr wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n ofynnol a'r hyn sydd angen ei wneud i gyrraedd yno. Felly, roedd yn hyderus y bydd y sefyllfa yn gyfredol yn ystod y tri mis nesaf ac y gall yr Adran Gwaith a Phensiynau ryddhau'r cymorthdaliadau sy'n weddill o tua £5m yn ôl i'r Awdurdod.

  O ran materion rheoli ansawdd a hyfforddiant, ni ellir adfer y rhain nes bod y gwaith ar bob un o'r tair blynedd o hawliadau cymhorthdal wedi'i gwblhau gan y bydd hyn yn dangos a yw gwallau'n gamgymeriadau untro o fewn blwyddyn neu a ydynt yn rhan o batrwm cylchol ac y gallent felly fod yn arwydd o wendidau sylfaenol y mae angen i raglen hyfforddi fynd i'r afael â nhw. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl i'r Awdurdod asesu ansawdd y broses hawlio; hefyd mae Tîm Perfformiad y Gwasanaeth yn canolbwyntio sylw ar unrhyw faterion sy'n codi o'r cymhorthdal i sicrhau yr ymdrinnir â phroblemau sy'n gysylltiedig â chymhorthdal wrth symud ymlaen.

  Wrth ailddatgan yr amserlen ar gyfer y dyddiad y disgwylir cwblhau'r gwaith archwilio cymhorthdal grant Budd-dal Tai, cytunodd Mr Alan Hughes fod unrhyw wallau rheolaidd yn awgrymu'r angen am hyfforddiant; fodd bynnag, oherwydd y bwlch amser rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a phan wneir y gwaith archwilio – tua mis Tachwedd, mae'r un gwallau'n debygol o ddigwydd eto hyd nes y cynhelir hyfforddiant i gywiro'r gwallau hynny – mae'n bosibl felly y bydd yr un gwallau'n cael eu nodi drwy archwilio cais cymhorthdal grant Budd-dal Tai 2020/21.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad Crynodeb Archwiliad Blynyddol ar gyfer 2020 a nodi'r cynnwys.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

## 6. DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH A BLAENORIAETHAU ARCHWILIO MEWNOL 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi diweddariad, fel ar 27 Ionawr 2021, ar y gwaith Archwilio Mewnol ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ar weithgarwch Archwilio Mewnol ym mis Rhagfyr, 2020 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Amlinellodd yr adroddiad lwyth gwaith presennol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i ganolig.

Diweddarodd y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg y Pwyllgor ar yr agweddau canlynol ar waith Archwilio Mewnol –

- Cwblhawyd y gwaith sicrwydd ers y diweddariad diwethaf gan gyfeirio at y tabl ym mharagraff 5 o'r adroddiad. O'r chwe archwiliad a restrwyd yn y tabl, roedd tri wedi arwain at sgôr Sicrwydd Sylweddol; roedd dau wedi arwain at sgôr Sicrwydd Rhesymol ac roedd un archwiliad – Taliadau: Cynnal Cyflenwyr wedi arwain at sgôr Sicrwydd Cyfyngedig. (Yn unol â'r arfer y cytunwyd arno, cyhoeddwyd yr adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar wahân i aelodau'r Pwyllgor a Deiliaid Portffolio perthnasol).
- Gwaith sydd ar y gweill fel y dengys paragraff 8 o'r adroddiad sy'n darparu gwybodaeth am yr archwiliadau sy'n mynd rhagddynt, y cam a gyrhaeddwyd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad a'r dyddiad adrodd disgwyliedig. Caiff y rhain eu blaenoriaethu i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn gan barhau i sicrhau bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i fod yn hyblyg i ymateb i unrhyw waith ar fyr rybudd yn ogystal ag unrhyw gais gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Bydd y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn flaenorol i'w harchwilio yn cael eu dwyn ymlaen i'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22.
- Y Fenter Twyll Genedlaethol – yr ymarfer bob dwy flynedd, sydd ar y gweill. Derbyniwyd y set gyntaf o barau, a oedd yn cynnwys paru data Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholwyr i nodi unrhyw hawliadau twyllodrus. Mae adolygiad cychwynnol o'r parau wedi tynnu sylw at broblem gydag ansawdd y data. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymchwilio iddo ar hyn o bryd. Disgwylir i weddill y parau gael eu rhyddhau ym mis Chwefror, 2021.
- Camau gweithredu y dylid bod wedi'u cymryd ers amser yn cadarnhau bod gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i weithredu'r holl gamau gweithredu sy'n weddill fel y dangosir yn y dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae gwasanaethau wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â Materion/Risgiau sy'n weddill gan adael dim ond tri cham gweithredu y dylid bod wedi'u cymryd ers amser yn ymwneud â chanllawiau ynghylch Credyd Cynhwysol, talu rhent tai drwy archeb sefydlog a gwirio adroddiadau eithriadau cyflogres yn annibynnol.
- Rhoi cymorth i'r Gwasanaeth Dysgu i ddatblygu canllawiau newydd ar weithredu a sicrhau trefniadau priodol ar gyfer cronfeydd yn dilyn adolygiad Archwilio Mewnol o Gronfeydd Answyddogol Ysgolion a arweiniodd at sgôr Sicrwydd Cyfyngedig. Darparwyd dau ddigwyddiad hyfforddi i benaethiaid a llywodraethwyr ar eu cyfrifoldebau o ran gweithredu cronfa ysgol yn briodol ac mae'r Adran Archwilio Mewnol hefyd wedi cynnig trefnu ac ariannu archwiliad annibynnol o gronfeydd lle mae'r pennaeth yn ei chael yn anodd penodi archwilydd neu os nad yw'r gronfa wedi'i harchwilio ers rhai blynyddoedd.
- Darparu cymorth gyda thri ymchwiliad ar gais Adnoddau Dynol.



DRAFT

Yn y drafodaeth a ddilynodd, codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor-

- O ran yr adolygiad Archwilio Mewnol Sicrwydd Cyfyngedig o Daliadau – Cynnal a Thalu Cyflenwyr, p’un ai a yw'r materion a godwyd mewn perthynas â dyblygu cyfrifon a/neu daliadau yn galw am weithredu’n gynt na 31 Rhagfyr, 2021 o ystyried natur y risg. Awgrymwyd ymhellach, os oes a wnelo mwy nag un gwasanaeth â mynd i'r afael â risgiau/materion, y gellid rhoi'r dasg i uwch reolwr oruchwylio cynnydd camau gweithredu i sicrhau y cedwir at ddyddiadau cwblhau a bod materion yn cael eu datrys yn enwedig pan fo'r camau hynny'n ymwneud â materion incwm a gwariant lle mae'r risg o dwyll a chamgymeriad yn uchel.

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er mai'r dyddiad penodol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion/risgiau mwy allweddol a godwyd yw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, bod y dyddiad ar gyfer eraill wedi'i newid. Mae nifer o'r camau i'w cymryd ar y cyd e.e. gydag Adnoddau Dynol a hefyd gyda'r gwasanaethau eu hunain ac felly maent yn debygol o gymryd mwy o amser i'w cwblhau. Mae mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr adolygiad archwilio hefyd yn golygu newid diwylliannol gan sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r gadwyn daliadau yn rhoi sylw priodol i brosesau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ac yn eu dilyn yn agos ac yn gyson.

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod system ariannol Civica yn cael gwybodaeth gan staff y Cyngor ar draws ystod o wasanaethau ac ysgolion, y mae rhai ohonynt, oherwydd eu bod yn ei defnyddio’n aml, yn fwy cyfarwydd â’r system nag eraill; sicrhau bod yr holl staff sy'n defnyddio'r system yn gwybod sut y mae'r system yn gweithio ac yn gwerthfawrogi pam fod yn rhaid iddynt ddilyn rhai arferion wrth weithredu'r system broblemus o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Er bod rhaglen hyfforddi wedi'i darparu ar gyflwyniad y system, mae Tîm Civica bellach yn cynnwys 4 aelod o staff sy'n bennaf gyfrifol am redeg a chynnal y system, felly mae faint o adnoddau y gellir eu neilltuo i ddarparu hyfforddiant i staff sy'n newydd i'r system ac i loywi gwybodaeth y rhai sy'n defnyddio'r system o bryd i'w gilydd yn unig yn heriol. Mae llawer o'r materion rheoli a godwyd gan yr archwiliad yn ymwneud â diffyg cydymffurfio o ran gweithdrefnau sy'n deillio o ddiffyg dealltwriaeth o'r system Civica e.e. yr angen i godi archebion prynu ar gyfer pob eitem o wariant ac i wirio nwyddau a dderbynnir ac anfonebau yn erbyn archebion prynu er mwyn sicrhau bod y swm a'r pris yn gywir cyn talu. Trwy beidio â dilyn y gweithdrefnau priodol neu trwy eu dilyn yn rhannol yn unig, gallai fod mwy o risg o ddyblygu taliadau a/neu daliadau twyllodrus.

  Mae'r mater bellach yn cael sylw fel prosiect o dan arweiniad Rheolwr Cyllid sydd wedi'i neilltuo i ddatblygu'r camau cywiro ar sail prosiect; ac er bod gan faterion sy'n dangos gwendidau sylweddol o ran rheolaeth fewnol amserlen fyrrach ar gyfer eu cywiro, mae’n debyg y bydd materion sy'n ymwneud â hyfforddiant a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth weithdrefnol yn cymryd mwy o amser i fynd i'r afael â nhw'n llawn, yn seiliedig ar staffio presennol, llwyth gwaith a threfniadau gweithio o bell. Gofynnwyd i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad archwilio i nodi anfonebau a ddyblygwyd ac adennill taliadau a ddyblygwyd.

  Wrth ymateb i sylw pellach fod y gostyngiad dros amser mewn staff gweinyddu cyllid o fewn gwasanaethau yn ffactor yn y gwendidau a nodwyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau), oedd yn cytuno y byddai hynny wedi

cyfrannu at ddiffyg dealltwriaeth a gwerthfawrogiad pam fod cydymffurfio â gweithdrefnau ariannol yn bwysig, fod adroddiadau monitro cyllidebau a'r broses gwirio cyfrifon hefyd yn fesurau rheoli proses ychwanegol a fydd yn tynnu sylw at unrhyw anomaleddau a/neu anghysondebau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod adolygiad y gwasanaeth archwilio mewnol o anfonebau/taliadau a ddyblygwyd yn cael ei gynnal mewn ymgynghoriad â darparwr meddalwedd sy'n cynnal archwiliad manwl o anfonebau a dalwyd; mae cyfarfod i drafod y canlyniad wedi'i drefnu ar gyfer y dydd Iau nesaf hwn a chaiff ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Ebrill.

- Gan gyfeirio at y Cronfeydd Answyddogol Ysgolion gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar ddarparu canllawiau i ysgolion ar weithredu cronfeydd, a'r trefniadau ar eu cyfer, a gofynnodd hefyd am eglurhad ynglŷn â'r nifer sy'n manteisio ar y ddau ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y canllawiau wedi'u dosbarthu i ysgolion tua dau fis yn ôl. Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr ysgol ym mis Rhagfyr, 2020 a bwriedir cynnal sesiwn arall ar gyfer mis Mehefin nesaf; nid yw'r nifer sy'n manteisio ar yr hyfforddiant wedi bod yn arbennig o dda. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi cynorthwyo dwy ysgol i archwilio cronfeydd yr ysgolion ac mae'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu i nodi statws y gronfa ym mhob ysgol a pha mor ddiweddar y cawsant eu harchwilio, os o gwbl.

**Penderfynwyd nodi darpariaeth a blaenoriaethau sicrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 7. DARPARIAETH SICRWYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg i'r Pwyllgor ei ystyried a'i gymeradwyo mewn perthynas â'r trefniadau presennol ar gyfer sicrhau y bydd gan y Pennaeth Archwilio a Risg ddigon o sicrwydd i gefnogi Barn Flynyddol yr Archwiliad Mewnol ar gyfer 2020/21 er mwyn sicrhau na fu unrhyw gyfyngu ar sgôp.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod effaith delio â Covid-19 ar yr holl wasanaethau cyhoeddus wedi bod yn sylweddol ac i archwilwyr mewnol mae wedi codi'r cwestiwn a fyddant yn gallu ymgymryd â digon o waith archwilio mewnol i gael sicrwydd yn ystod 2020/2021 - mae hon yn ystyriaeth allweddol i fodloni gofyniad Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) lle mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio a Risg gyhoeddi barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Cyngor.

Wrth gydnabod yr heriau sylweddol y mae cyrff llywodraeth leol yn gweithredu oddi tanynt ar hyn o bryd wrth wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â sut i wneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau ariannol i gyflawni anghenion hanfodol, er nad yw'r disgwyliadau proffesiynol a disgwyliadau rheoleiddwyr ar gyrff llywodraeth leol i sicrhau bod eu trefniadau archwilio mewnol yn cydymffurfio â PSIAS wedi newid, mae CIPFA wedi paratoi canllawiau ar gyfer archwilwyr mewnol sy'n gweithio mewn llywodraeth leol yn y DU neu ar ei rhan. Mae'r canllawiau'n manylu ar chwech o ofynion allweddol ar gyfer cyrff llywodraeth leol y dylai penaethiaid archwilio mewnol neu'r prif weithredwr archwilio, timau arwain a phwyllgorau archwilio eu dilyn; nodir y rhain ym mharagraff 5 o'r adroddiad. Felly, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi diwygio a chytuno ar flaenoriaethau'r Tîm Archwilio Mewnol i ymdrin â'r risgiau newydd a newidiadau'n sgil Covid-19 gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i

DRAFT

sicrhau na fydd yn cyfyngu ar sgôp ac y bydd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol sicrwydd digonol i gefnogi'r farn flynyddol. Y darnau allweddol o waith a fydd yn cyfrannu at y sicrwydd yw archwiliadau cofrestr Risg Gorfforaethol; Adolygiad o Ymateb Brys Covid-19 (Hunanasesiad) a Gwaith Dilynol wedi'i gwblhau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, 2020 a Sicrwydd Rheoli Argyfwng (Sicrwydd llinell gyntaf) ar hyn o bryd yn ystod y cam gwaith maes. Wrth i'r risgiau barhau i newid ac wrth i'r cofrestrau risg gael eu hadolygu a'u diweddaru gan yr UDA, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adolygu ei flaenoriaethau yn unol â hynny.

Wrth gyflawni'r strategaeth archwilio sy'n seiliedig ar risg, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg a gefnogir gan yr UDA wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau archwilio mewnol sydd ar gael yn ystod y pandemig gan gynnwys drwy weithredu'r mesurau y manylir arnynt ym mharagraff 10 o'r adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch sut y caiff cyfyngu ar sgôp ei ddiffinio a'i gymhwyso. Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg y dylid ystyried cyfyngu ar sgôp os bernir nad oes digon o waith wedi'i wneud i roi sicrwydd yn y tri maes allweddol sy'n ymwneud â phrosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor. Er bod y gwaith sydd ei angen i ddarparu barn sicrwydd lawn yn cael ei adael i farn broffesiynol ym mhob sefydliad, mae canllawiau CIPFA yn datgan yn glir na ddylid ceisio rhoi sicrwydd mewn amgylchiadau lle mae adnoddau wedi bod mor gyfyngedig fel na ellir cefnogi sicrwydd o'r fath. Mae canllawiau CIPFA hefyd yn awgrymu'r geiriad posibl i'w ddefnyddio yn dibynnu ar y math o gyfyngiad a'r maes lle mae'r cyfyngiad yn codi. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth Archwilio o'r farn, ar ôl ymgymryd â gwaith hanfodol sylweddol yn ystod y flwyddyn yn ogystal â blaenoriaethu'r meysydd lle mae'r risg fwyaf, y gellir darparu barn sicrwydd lawn ac na fydd unrhyw gyfyngu ar sgôp.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer sicrhau y bydd gan y Pennaeth Archwilio a Risg sicrwydd digonol i gefnogi'r Farn Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21, a**
- **Nodi na fydd unrhyw gyfyngiad ar sgôp.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**8. CYFLAWNI Â LLAI: GWASANAETHAU HAMDDEN – CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad y gwasanaeth Archwilio Allanol oedd yn nodi canfyddiadau adolygiad dilynol i adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015 – Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn ystyried effaith gostyngiadau yng nghyllid llywodraeth leol ar wasanaethau hamdden y Cyngor ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny.

Cyfeiriodd Mr Alan Hughes, Archwilio Cymru at gyd-destun yr adroddiad ac eglurodd fod y gwaith maes wedi'i gwblhau a bod cynnwys yr adroddiad wedi'i gwblhau cyn dechrau Covid-19 felly ni chyfeirir at effaith y pandemig ar y gwasanaeth hamdden; gyda hyn mewn golwg cytunwyd y dylid rhyddhau'r adroddiad gyda'r cafeat hwn. Yn gyffredinol, mae neges yr adroddiad yn gadarnhaol ac yn dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaeth yn ei ganolfannau hamdden gyda llai o adnoddau a bod ganddo weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth, ond bod cyfleusterau mewn cyflwr gwael yn her ariannol. Yn fanwl, mae'r adroddiad yn canfod bod –

- Gostyngiad wedi bod yn adnoddau gwasanaeth hamdden y Cyngor ers 2014-15 ac mae cost net y gwasanaeth wedi gostwng. Bu gostyngiad o 77% yng nghyllideb y



DRAFT

gwasanaeth hamdden yn ystod y pedair blynedd diwethaf wedi'i gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn incwm o 31% a gostyngiad mewn gwariant o 11%.

- Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei wasanaeth hamdden ac mae'n ystyried cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y canolfannau hamdden sydd mewn cyflwr gwael yn risg. Mae'r Cyngor wedi ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth bennu blaenoriaethau a datblygu ei strategaeth newydd ar gyfer gwasanaethau hamdden ac mae'n gallu dangos enghreifftiau o wella lles drwy hamdden. Fel rhan o'r strategaeth honno mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar gymryd agwedd fwy masnachol at hamdden drwy fuddsoddi yn ei gyfleusterau a chynyddu aelodaeth ac incwm i wneud y gwasanaeth yn fwy hunangynhaliol; mae hyn yn dechrau cael effaith gydag incwm yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur yn Llangefni yn fwy na gwariant o 9% yn 2018/19. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu a chymharu opsiynau darparu posibl ar gyfer ei wasanaeth hamdden.
- Mae gan y Cyngor drefniadau monitro perfformiad a llywodraethu cadarn ond mae'n cydnabod y gallai wella ei ddealltwriaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae gan y Cyngor strwythur atebolrwydd clir ar gyfer ei wasanaeth hamdden a system dangosfwrdd gwybodaeth reoli sy'n caniatáu i swyddogion fonitro perfformiad. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai wneud defnydd pellach o'i ddata a'i dechnoleg i wella dealltwriaeth o effeithiau ei wasanaeth e.e. nodi rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr a thargedu eu gwasanaethau'n fwy effeithiol a thrwy ddadansoddi data ymhellach er mwyn dod i well dealltwriaeth o ganlyniadau gwahanol weithgareddau.
- Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon â'r gwasanaeth hamdden ac mae'r Cyngor yn defnyddio adborth cwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg gan Archwilio Allanol yn hapus gyda gwasanaeth hamdden y Cyngor. Roedd 50% o'r farn bod ansawdd y gwasanaeth wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac 83% o'r farn bod y gwasanaeth yn rhoi gwerth da am arian.

  Ychwanegodd Mr Alan Hughes fod y Cyngor, ers drafftio'r adroddiad, ym mis Mawrth, 2020 wedi penderfynu gwneud buddsoddiad cyfalaf mewn hamdden. Mae hyn yn lleddfu rhai o'r pryderon a godwyd gan yr archwiliad ynglŷn â chyflwr adeiladau hamdden.

Wrth groesawu ysbryd cyffredinol yr adroddiad a oedd yn galonogol iawn, cododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- P'un ai a yw Archwiliad Allanol o'r farn bod y Cyngor wedi gwneud y penderfyniad cywir i barhau i ddarparu ei wasanaeth hamdden yn fewnol. Dywedodd Mr Alan Hughes fod y broses a gynhaliwyd yn fewnol gan y Cyngor yn dangos bod y Cyngor wedi gwerthuso'r opsiynau ar gael ar gyfer darparu ei wasanaeth hamdden yn y dyfodol ac nad oedd rhai o'r ffactorau a allai fod wedi arwain awdurdodau eraill i ddilyn llwybrau darparu eraill e.e. ar gyfer manteision treth annomestig, mor amlwg yn lleol. Daeth y Cyngor i gasgliad rhesymol o ystyried yr amodau lleol.
- Bod y pandemig wedi dangos pwysigrwydd gweithgareddau hamdden a chorfforol wrth gefnogi lles meddyliol a chorfforol pobl ac y dylai hon fod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y dyfodol. Yng ngoleuni hyn a'r straen tebygol ar gyllideb y Cyngor ar ôl y pandemig oni ddylai'r Cyngor fod yn gwneud mwy gyda Chwrs Golff Llangefni nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallai ddefnyddio'r ased a thrwy hynny ryddhau arian y mae mawr ei angen i gefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid.

  Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Hamdden Masnachol fod gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r opsiynau ar gyfer Cwrs Golff Llangefni gyda'r gobaith, pe bai'n cael ei werthu, y gellir ail-fuddsoddi'r elw mewn gwasanaethau ieuenctid a hamdden. Yn fwy cyffredinol, mae'r adroddiad i'w groesawu gan fod y galw ar wasanaethau hamdden, yn enwedig ar

dîm y cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff, yn debygol o gynyddu'n sylweddol yn dilyn y pandemig wrth i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddefnyddio'r cynllun i ymdrin â materion iechyd cymunedol ymhlith y boblogaeth hŷn ac yn gynyddol ymhlith pobl iau; yn ogystal â hyn, mae Covid 19 hefyd wedi dangos gwerth cydweithio ac wedi cynnig cyfleoedd i gryfhau'r bartneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae'r pandemig wedi dangos ymhellach y graddau y mae canolfannau hamdden yn cael eu gwerthfawrogi gan eu defnyddwyr ac fel y mae adborth yn dangos, cymaint yr oedd pobl yn gweld eu heisiau pan fu'n rhaid iddynt gau. Yn ystod cyfnodau cau gorfodol, mae staff y Gwasanaeth Hamdden wedi bod yn rhan o'r amrywiaeth o waith cymorth cymunedol sydd wedi digwydd drwy gydol yr argyfwng. Dywedodd y Rheolwr Hamdden Masnachol ei fod yn hyderus y bydd y Gwasanaeth Hamdden yn addasu ac yn dod yn ôl yn gryfach yn ystod y cyfnod adfer.

- Wrth nodi bod yr adroddiad yn cydnabod bod adeiladau hamdden y Cyngor mewn cyflwr gwael a bod angen eu huwchraddio, gofynnodd y Pwyllgor am eglurder o ran y posibilrwydd y gallai'r Cyngor foderneiddio a diweddaru ei ganolfannau hamdden.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Cyngor yn ymwybodol bod angen gwario arian ar ei ganolfannau hamdden a'i fod wedi comisiynu cwmni allanol i adolygu'r gwasanaeth ac i asesu'r ffordd orau o sicrhau bod y cyfleusterau'n cyrraedd y safon. Ychwanegir at y broblem gan y ffaith fod cyfleusterau'n dangos eu hoed a bod tair o'r pedair canolfan hamdden wedi'u hadeiladu tua'r un adeg a'u bod i gyd bellach yn dod i ddiwedd eu hoes. Mae Canolfan Hamdden Caergybi mewn cyflwr ychydig yn waeth na'r canolfannau yn Amlwch a Llangefni ond byddai'n costio tua £15m i £20m i godi un newydd, sef buddsoddiad cyfalaf ar lefel sy'n anodd iawn ei gwneud o dan yr amgylchiadau presennol. Pe bai cynllun Wylfa Newydd wedi mynd rhagddo yna gallai arian ar gyfer canolfan newydd yn Amlwch, a Chaergybi o bosibl, fod wedi dod ar gael drwy'r broses honno gan ganiatáu i'r Cyngor wedyn fynd i'r afael â materion ym Mhlas Arthur yn Llangefni. Fel y mae, y strategaeth yw cynnal a lle y bo'n bosibl, uwchraddio'r canolfannau hamdden i ymestyn eu hoes am ddeng mlynedd arall yn y gobaith y bydd y sefyllfa ariannol wedi gwella erbyn hynny. Os gwerthir Cwrs Golff Llangefni, yna mae penderfyniad mewn egwyddor wedi'i wneud i ddefnyddio'r arian ar gyfer Canolfan Hamdden Plas Arthur ac mae opsiynau ar gyfer Amlwch a Chaergybi yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, mae asedau eiddo'r Cyngor hefyd yn cynnwys ysgolion a phencadlys y Cyngor y mae angen eu cynnal a'u huwchraddio; bydd yn rhaid datblygu a chytuno ar strategaeth hirdymor ar gyfer y rhain ac adeiladau eraill y Cyngor.

- Yn dilyn yr uchod, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'n ymarferol cysylltu uwchraddio'r canolfannau hamdden â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mai un ffordd o barhau i ariannu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y mae Llywodraeth Cymru yn edrych arno yw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). O dan MIM, mae partneriaid y sector preifat yn adeiladu ac yn cynnal asedau cyhoeddus gyda'r Cyngor, gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru yn talu ffi flynyddol i'r partner preifat dros gyfnod penodol i dalu am gost adeiladu, cynnal a chadw ac ariannu'r prosiect. Ar ddiwedd y cyfnod, mae'r ased yn trosglwyddo i'r Cyngor. Mae'r MIM yn cael ei ystyried ar gyfer prosiectau gwerth £15m neu fwy a allai olygu ei fod yn briodol ar gyfer cynllun sy'n cynnwys Ysgol Uwchradd Amlwch er y byddai'n rhaid trafod cynnwys y ganolfan hamdden yn y cynllun hwnnw gyda Llywodraeth Cymru gan mai dim ond ar gyfer cyfleusterau addysgol y mae'r model yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gytundeb â'r corff a fydd yn cyflwyno prosiectau MIM sy'n rhoi cyfle iddo gymryd rhan mewn prosiect MIM yn y dyfodol os dymunir.

  Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch uwchraddio cyfleusterau yng nghyd-destun Gemau'r Ynysoedd y mae Ynys Môn wedi ennill yr hawl i'w cynnal, dywedodd y Rheolwr

DRAFT

Hamdden Masnachol fod y cais am Gemau'r Ynys wedi'i wneud a'i gymeradwyo ar sail y cyfleusterau presennol ac na ddylid disgwyl unrhyw arian ychwanegol yn sgil y ffaith bod y Gemau’n dod yma. Er bod rhai o'r Ynysoedd sydd wedi cynnal y Gemau o'r blaen wedi gwario swm sylweddol o arian ar uwchraddio eu cyfleusterau, mae hyn wedi dibynnu ar y sefyllfa ariannol leol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 9. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r Datganiad yn nodi strategaeth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod o ran benthyca a buddsoddi a'r cyfyngiadau ar fenthyca, mae’n pennu'r dangosyddion darbodus ac archwaeth risg y Cyngor a hefyd ei ddull o fuddsoddi.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wrth dynnu sylw at y prif bwyntiau'r adroddiad fel a ganlyn, nad oes unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i egwyddorion craidd Datganiad 2020/21 -

- Y cyd-destun allanol ar ffurf y sefyllfa economaidd ehangach gan fod hynny'n effeithio ar gyfraddau llog buddsoddi, cost benthyca a chryfder ariannol gwrthbartïon. Ceir crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd yn Atodiad 3 i'r adroddiad a nodir y prif bwyntiau yn adran 3. Ar ôl ystyried yr wybodaeth sydd ar gael ac ar ôl cymryd cyngor gan Gynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl ym mharagraff 3.2 yr adroddiad yn nodi safbwynt y Cyngor ar lefelau cyfradd llog hyd at fis Mawrth, 2024 na ddisgwylir iddynt newid yn sylweddol yn y cyfnod hwnnw.
- Safbwynt benthyca allanol presennol y Cyngor fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 4.1.1 yr adroddiad sy'n dangos bod ganddo tua £122m o fenthyciadau gyda PWLB a £2.6m o fenthyciadau gyda Salix cynllun a ariennir yn gyhoeddus sy'n darparu benthyciadau di-log ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni.
- Y rhaglen gwariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2021/22 i 2023/24 fel y nodir yn adran 5.6 yr adroddiad gan gynnwys gwariant cyfalaf arfaethedig, sut y caiff hyn ei ariannu a'r balans i'w ariannu o fenthyciadau - £7.553m ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion
- Effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC) a lefel y benthyca allanol a mewnol fel y dangosir yn Nhabl 4 o'r adroddiad.
- Y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw – y tâl y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei godi i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn i sicrhau bod digon o arian ar gael i ad-dalu dyledion pan fo angen. Manylir ar y Polisi DIR yn Atodiad 6 yr adroddiad ac nid yw wedi newid ers iddo gael ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018.
- Ar hyn o bryd, mae’r Cyngor yn cynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus oherwydd bod enillion ar fuddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrthbartïon yn fater sy’n parhau i fod angen ei gymryd i ystyriaeth. Fel rhan o’r strategaeth hon, mae’r gallu i fenthyca’n allanol i ad-dalu’r arian wrth gefn a balansau, petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosibl angen benthyca £8.884m yn allanol petai angen brys. Dyma’r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau’r Cyngor yn y gorffennol i gyllido’r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.
- Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi’r symiau ychwanegol a fenthycir. Wrth benderfynu a ddylid benthyca cyn bod angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraff 6.4.2 o’r adroddiad.

DRAFT

- Mae'n annhebygol y byddir yn aildrefnu'r benthyciadau ym mhortffolio dyled y Cyngor ar hyn o bryd gan fod gwahaniaeth mawr iawn o hyd rhwng cyfraddau ad-dalu cynamserol a chyfraddau benthyca newydd, ac mae'r benthyciadau newydd yn ei gwneud yn aneconomaidd gwneud hynny.
- Y brif strategaeth ar gyfer rheoli arian yw sicrhau yn y lle cyntaf ddiogelwch yr adneuon, eu hylifedd yn yr ail le ac yna’r enillion ar y buddsoddiad.
- Mae'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru a CIPFA yn rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd ddarbodus tuag at reoli risg ac mae'n diffinio ei archwaeth risg drwy'r dulliau a nodir yn adran 7.2 o'r adroddiad o ran gwrthbartïon sy’n addas iawn i dderbyn credyd, terfynau benthyca a sgoriau credyd sy'n cael eu monitro'n ddyddiol.
- Mae Adran 8 o'r adroddiad yn nodi'r trefniant llywodraethu a rheoli o ran prosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys.
- Mae Atodiad 11 i'r adroddiad yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys sy'n cynnwys fforddiadwyedd a darbodusrwydd ac yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyled allanol a strwythur dyledion.

Wrth ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd, trafododd y Pwyllgor gynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yn benodol p’un ai a fyddai'r Cyngor yn cyflawni ei wariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2020/21 pan ddangoswyd mai dim ond £11m a wariwyd yn erbyn ffigur a adroddwyd o £33.7m pan gyfarfu'r Pwyllgor ddiwethaf ym mis Rhagfyr a ph’un ai a yw'r Cyngor, yng ngoleuni tanwariant hanesyddol ar y gyllideb gyfalaf, yn realistig yn ei flaengynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wrth gyfeirio at adroddiad monitro cyllideb cyfalaf Chwarter 3 a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021, mai’r gwariant a ragwelir o gyfanswm cyllideb o £56m yw £34m. O'r tanwariant o £22m, mae £8m yn ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai ac nid yw'n cynnwys benthyca gan fod y gwariant yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai; Mae £7.7m yn ymwneud â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a ariennir gan gyfuniad o grantiau, a benthyca â chymorth a heb gymorth; mae £1m yn ymwneud â datblygu economaidd sy'n cynnwys arian grant Ewropeaidd sy'n ddiogel ac mae £2m yn ymwneud â gwaith cynllun lliniaru llifogydd gyda 85% yn cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru a 15% drwy adnoddau'r Cyngor. Bydd Tabl 4 o adroddiad Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. O ran defnyddio gwariant cyfalaf, gall amryw o faterion arwain at oedi o ran cynnydd prosiectau cyfalaf yn erbyn y proffil a'r gwariant a gymeradwywyd a gall y Cyngor fod yn rhy optimistaidd ynghylch rhagolygon ei raglen gyfalaf o ran amser, darpariaeth a ffactorau allanol y tu hwnt i'w reolaeth. Fodd bynnag, gan fod y rhaglen gyfalaf yn cael ei chymeradwyo cyn y flwyddyn y bydd y gwariant yn digwydd, gellir ystyried ei bod yn well cynnwys cynlluniau yn y rhaglen ar ddechrau'r flwyddyn ar y sail y cânt eu cyflawni na gorfod mynd yn ôl i geisio cymeradwyaeth ar gyfer cynlluniau ganol y flwyddyn oherwydd cyfalaf a chapasiti heb eu defnyddio.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Cyngor yn ystyried cyfraddau chwyddiant yn seiliedig ar gyngor a ddarparwyd gan ei Gynghorwyr Rheoli Trysorlys (gweler Atodiad 3) ond bod chwyddiant yn ffactor amlycach o ran refeniw yn hytrach na chyfalaf. Eglurodd y Swyddog hefyd nad yw effaith y benthyca a ragwelir (sy’n or-optimistaidd ynghylch cyflawni'r rhaglen gyfalaf) mor amlwg o ddydd i ddydd gan fod y Cyngor yn defnyddio'r arian sydd ganddo i ariannu gwariant cyfalaf er mwyn osgoi benthyca a chostau llog cysylltiedig hyd nes y bydd yn rhaid iddo wneud benthyciadau allanol ar gyfer yr arian y mae wedi'i wario. Rhoddodd y Swyddog sicrwydd hefyd, wrth ddefnyddio arian wrth gefn i ariannu gwariant cyfalaf, na fydd mesurau diogelu rheoli llif arian yn caniatáu i lif arian

DRAFT

ostwng islaw lefel benodol, a bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Cyngor isafswm balans o £10m mewn cyfrifon adneuo hygyrch ar unrhyw adeg benodol.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 ac anfon y strategaeth ymlaen at y Pwyllgor Gwaith i'w chymeradwyo yn amodol ar ddiweddaru Tabl 4 i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.**
- **Nodi cynnydd yn y terfynau trafodion yn Atodiad 8 yr adroddiad.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**10. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn darparu ar gyfer adolygiad cyfnodol o'r Siarter Archwilio Mewnol gyda chymeradwyaeth derfynol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Y tro diwethaf i'r Pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r Siarter oedd ym mis Medi, 2018. Er nad yw adolygiad o'r Siarter gan y Pennaeth Archwilio a Risg wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol, dylid nodi o ran y datganiad ar dudalen 11 yr adroddiad mewn perthynas ag adnoddau Archwilio Mewnol fod yr holl swyddi yn y strwythur gwasanaeth sydd wedi eu llenwi, sy'n cyfateb i 1,250 o ddiwrnodau, ond yn berthnasol os yw'r swyddi wedi'u llenwi'n llawn amser. Ar hyn o bryd, dim ond yn rhan-amser y bu'n bosibl recriwtio i ôl-lenwi ar gyfer un o'r secondiadau sy'n golygu bod y 1,250 diwrnod yn gostwng i 953 diwrnod ar hyn o bryd. Pan ddaw'r secondiad i ben bwriedir cadw'r oriau rhan-amser i wneud iawn am y gwahaniaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn am gadw gwrthrychedd, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod trefniadau ar waith i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth a gwrthrychedd o ganlyniad i'r ffaith bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn rheolwr llinell i'r gwasanaeth Rheoli Risg ac Yswiriant. Ni fydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn sgopio nac yn adolygu gweithgareddau archwilio mewnol sy'n ymwneud â'r maes gwasanaeth hwn. Yn hytrach bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn arwyddo adroddiadau.

**Penderfynwyd nodi'r adolygiad a chymeradwyo priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio Mewnol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**11. BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill, 2021 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Rhaglen Waith wedi'i chyfyngu i gyfarfod Ebrill, 2021 oherwydd yr ansicrwydd sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a ddaw i rym ym mis Ebrill, 2021; mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu y bydd yn rhaid eu cynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor wedi hynny.

**Penderfynwyd derbyn y Flaen Raglen Waith heb ei diwygio.**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**

**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Ebrill 2021 |
| **Pwnc:** | Diweddariad ar y Strategaeth a'r Blaenoriaethau Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

**Rhagarweiniad**

1. O ganlyniad i'r pandemig presennol, mae'r Cyngor wedi gorfod blaenoriaethu ei adnoddau ac ymdrechion ei weithlu, felly mae cynnal 'busnes fel arfer' wedi bod yn anodd. Fodd bynnag, er gwaethaf adleoli hanner y tîm Archwilio Mewnol o fewn y sefydliad tan ddiwedd Awst 2020, mae gwaith 'archwilio mewnol' wedi parhau ac wedi canolbwyntio ar y meysydd sydd â'r gwerth a'r risg fwyaf i'r sefydliad, gan ymateb i geisiadau am sicrwydd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chynnal archwiliadau gorfodol o grantiau penodol.

2. Felly, rydym wedi darparu'r diweddariad byr hwn, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa fel yr oedd hi ar 6 Ebrill 2021, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 27 Ionawr 2021, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

**Argymhelliad**

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

## Y CYD-DESTUN CYFREDOL

4. Mae angen bod yn hyblyg i sicrhau bod gwaith archwilio yn cwrdd ag anghenion y Cyngor yn yr amgylchedd risg a rheolaeth hwn sy'n newid yn barhaus. Felly, mae llwyth gwaith y tîm archwilio mewnol yn cael ei adolygu'n gyson, mewn ymgynghoriad agos â'r Rheolwr Risg ac Yswiriant a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

## GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

| Maes Archwilio | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Trychinebus | Mawr | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Thematig o Ysgolion Cynradd - Casglu Incwm - Ail Archwiliad Dilyn-i-Fyny | Mawrth 2021 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |

## GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

5. Mae nifer o archwiliadau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd a rhoddir blaenoriaeth i'w cwblhau fel eu bod yn cefnogi'r Farn Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2020-21.

| Maes Archwilio | Gwasanaeth | Rheswm Archwilio | Cam | Dyddiad Arfaethedig yr Adroddiad Terfynol |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad TG | Corfforaethol | Risg uchel – yn ymwneud â Covid 19; darpariaeth sicrwydd 2020/21 | Cyhoeddwyd Adroddiad Drafft - 'Sicrwydd Cyfyngedig'; datblygu Cynllun Gweithredu gydag uwch reolwyr | Mehefin 2021 |

| Maes Archwilio | Gwasanaeth | Rheswm Archwilio | Cam | Dyddiad Arfaethedig yr Adroddiad Terfynol |
|---|---|---|---|---|
| Nodi Anfonebau Dyblyg ac Adennill Taliadau Dyblyg | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Cyhoeddwyd Adroddiad Drafft - ‘Sicrwydd Cyfyngedig’; datblygu Cynllun Gweithredu gydag uwch reolwyr | Mehefin 2021 |
| Rheoli Argyfwng – (sicrwydd Llinell Flaen) | Corfforaethol | Risg Uchel - yn ymwneud â Covid 19; darpariaeth sicrwydd 2020/21 | Dadansoddi’r canlyniadau | Mehefin 2021 |

## GWAITH A DDYGWYD YMLAEN I 2021/22

6. Mae yna nifer o archwiliadau wedi cychwyn yr ydym wedi eu dwyn ymlaen i 2021/22

| Maes Archwilio | Gwasanaeth | Rheswm Archwilio | Cam |
|---|---|---|---|
| Gosod Tai | Tai | Cais gan y Pwyllgor Gwaith | Gwaith maes – wedi ei ddwyn ymlaen I 2021/22 |
| Tai - Digartrefedd | Tai | Risg uchel - yn ymwneud â Covid 19; gwnaed cais i'w flaenoriaethu gan y Dirprwy Brif Weithredwr | Gwaith maes - wedi'i ddwyn ymlaen i 2021/22 ac ehangwyd y sgôp i ystyried effaith Covid-19 |
| Adennill Dyledion I’r Cyngor | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Gwaith maes - wedi'i ddwyn ymlaen i 2021/22 ac ehangwyd y sgôp i ystyried effaith Covid-19 |
| Taliadau Gofal Arbennig I’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Wedi ei ‘barcio’ oherwydd estyniad i’r dyddiad cau ar gyfer talu - ei ddwyn ymlaen i 2021/22 |

## CAMAU Y DYLID BOD WEDI EU CYMRYD BELLACH


7. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i weithredu'r holl gamau sy'n weddill.  Mae'r dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yn dangos y sefyllfa fel yr oedd hi ar 6 Ebrill 2021, ond rydym wedi darparu adroddiad manylach ar wahân.


8. Mae gwasanaethau wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â 'Materion / Risgiau' sy'n weddill  gan adael 16 gweithred a ddylai fod wedi cael sylw erbyn hyn. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod yna nifer o weithredoedd y dylent fod wedi eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2021, gan gynnwys y rheini y tynnwyd sylw atynt mewn archwiliadau Gwytnwch TG a Seiberddiogelwch, y byddwn yn eu dilyn i fyny'n  ffurfiol yn ystod Ebrill 2021. Mae'r gweddill yn cynnwys canllawiau ynghylch Credyd Cynhwysol, talu rhent trwy archeb sefydlog, gwiriadau annibynnol o adroddiadau eithriadau cyflogres, cod llywodraethu lleol, hyfforddiant i reolwyr nad ydynt yn rheolwyr ariannol, materion yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol yn y gwasanaethau cymdeithasol, a threfniadau ar gyfer staff sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor.

## YMCHWILIADAU

9. Er nad yw'n waith archwilio mewnol yn llwyr, oherwydd hyfforddiant a sgiliau'r tîm, mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi gofyn i ni gynorthwyo gyda thri ymchwiliad. Rydym wedi gorffen dau ohonynt ac yn dal i weithio ar y llall.


# ATODIAD 1 – CAMAU SYDD AR EI HÔL HI (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 6 EBRILL 2021










### Overdue Issues/Risks by Service

| Service | Count |
|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services | 3 |
| Adnoddau / Resources | 6 |
| Busnes y Cyngor / Council Business | 1 |
| Trawsnewid / Transformation | 4 |

### All outstanding Issues/Risks by Service

| Service | Count |
|---|---|
| Tai / Housing | 1 |
| Dysgu / Learning | 13 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services | 7 |
| Adnoddau / Resources | 29 |
| Busnes y Cyngor / Council Business | 1 |
| Uwch Dim Arweinyddu / Senior Leadership Team | 2 |
| Trawsnewid / Transformation | 8 |

### Outstanding Red Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|

0 of 0

### Outstanding Limited Assurance Reports

| Audit Title | Count |
|---|---|
| IT Resilience 192003 | 4 |
| Leavers' Process 192014 | 3 |
| Management of School Unofficial Funds 192012 | 4 |
| Payments - Supplier Maintenance 202107 | 10 |

### Outstanding Amber Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|
| 3975 | Corporate Safeguarding 4 - Current monitoring of School DBS compliance by the Learning Service is ineffective. |
| 3983 | Cyber Security - While IT undertakes daily operational monitoring of network security, there is little high level, proactive monitoring to... |
| 3997 | Corporate Safeguarding 3 - The Council does not have an integrated Council-wide system to record and monitor compliance levels with Disclosure and... |
| 3999 | Cyber Security - Corporate scrutiny and reporting mechanisms for cybersecurity issues and risks are insufficient. This could result in the Council... |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad:** | 20 Ebrill 2021 | |
| **Pwnc:** | 'Materion / Risgiau ' sydd angen sylw | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk | |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk | Nanette Williams<br>Prif Archwilydd<br>01248 751809<br>NanetteWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod cyfrifoldeb arno i fonitro gweithrediad y camau y cytunwyd i'w cymryd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar statws a manylion y risgiau sy'n weddill ac y dygwyd sylw atynt gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. | | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Ym mis Mawrth 2020, gweithredodd y Cyngor fersiwn newydd ac sydd wedi'i huwchraddio o'i system i dracio camau gweithredu, sef 4action. Mae hyn wedi hwyluso monitro ac adrodd yn fwy effeithiol ar faterion / risgiau a nodwyd yn ystod gwaith archwilio.

1.2. Rydym wedi datblygu dangosfwrdd, sy'n rhoi cipolwg amser gwirioneddol ar y perfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu sydd angen sylw. Mae hefyd yn hwyluso'r gwaith o dracio ac adrodd yn effeithiol ar y wybodaeth hon. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn rheolaidd gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'i hadroddiadau diweddaru ar archwiliadau mewnol.

1.3. Cyn uwchraddio'r system 4action, roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar yr holl 'Faterion / Risgiau' sydd angen sylw. Dyma fydd y tro cyntaf i ni gyflwyno adroddiad manwl i'r Pwyllgor, yn amlinellu'r perfformiad cyffredinol o ran mynd i'r afael â chamau archwilio, ers gweithredu'r system 4action newydd.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r 'Materion / Risgiau' sydd angen sylw fel y nodwyd nhw gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol .
- yn penderfynu pa mor aml y mae angen adroddiad manylach o'r natur hon.



# MATERION / RISGIAU SY’N WEDDILL

## EBRILL 2021

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

Nanette Williams BA (Hons) CMIIA, Prif Archwilydd

# TABL CYNNWYS

CYFLWYNIAD ____ 3
PERFFORMIAD CYFREDOL ____ 5

# CYFLWYNIAD

Eleni yw'r flwyddyn lawn gyntaf o weithredu fersiwn newydd  system tracio gweithredoedd 4action y Cyngor sydd wedi ei huwchraddio. Rydym yn falch o adrodd bod y system newydd wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran gwella ein prosesau tracio gweithredoedd a phrosesau dilyn-i-fyny.

Rydym wedi datblygu a mireinio ein dangosfwrdd, sy'n rhoi cipolwg amser gwirioneddol ar y perfformiad cyfredol wrth  fynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n weddill ac sy'n caniatáu i ni dracio ac adrodd ar y wybodaeth hon yn effeithiol. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus ac felly rydym yn gallu cael diweddariadau ar unwaith gan reolwyr ar y cynnydd a wneir i fynd i'r afael â hwy.

Rydym hefyd wedi datblygu dangosfwrdd gwasanaeth pwrpasol i gynorthwyo Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a darparu diweddariadau ar eu gweithredoedd. Ar hyn o bryd rydym yn treialu'r dangosfwrdd gyda'r gwasanaeth Adnoddau ac os bydd yn llwyddiannus byddwn yn bwrw ymlaen i'w ddefnyddio'n helaethach ar draws y Cyngor yn ystod 2021-22. Yn anffodus, mae argyfwng Covid-19 wedi cyfyngu ein gallu i gyflwyno'r system 4action newydd i wasanaethau a darparu hyfforddiant ac ati fel bod rheolwyr yn gallu defnyddio ei swyddogaethau yn llawn. Wrth i'r pandemig gilio, byddwn yn ailddechrau'r gwaith hwn.

Rydym hefyd wedi datblygu dangosfwrdd gwasanaeth pwrpasol i gynorthwyo Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a darparu diweddariadau ar eu gweithredoedd. Ar hyn o bryd rydym yn treialu'r dangosfwrdd gyda'r gwasanaeth Adnoddau ac os bydd yn llwyddiannus byddwn yn bwrw ymlaen i'w ddefnyddio'n helaethach ar draws y Cyngor yn ystod 2021-22. Yn anffodus, mae argyfwng Covid-19 wedi cyfyngu ein gallu i gyflwyno'r system 4action newydd i wasanaethau a darparu

hyfforddiant ac ati fel bod rheolwyr yn gallu defnyddio ei swyddogaethau yn llawn. Wrth i'r pandemig gilio, byddwn yn ailddechrau'r gwaith hwn.


# PERFFORMIAD CYFREDOL

Mae'r saith graff canlynol yn dangos sefyllfa gweithredoedd sy'n weddill ar draws y Cyngor ar 31 Mawrth 2021. Yn anochel, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu rhai gwasanaethau i fynd i'r afael â'r gweithredoedd sydd ganddynt yn weddill dros y flwyddyn ddiwethaf.


Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion / risgiau 'Coch' yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw 'faterion / risgiau' Coch yn weddill.

### Gweithredoedd sy'n Weddill a Gweithredoedd Hwyr

1




2




Fel ar 31 Mawrth 2021, rydym yn tracio 60 o weithredoedd sy'n weddill yn 4action. O'r rhain, mae 20 yn rhai 'pwysig' (ambr) a 40 yn rhai 'cymedrol' (melyn) o ran eu blaenoriaeth risg, fel y dangosir yn graff 1.

Rydym yn monitro pob gweithred ac yn cysylltu gyda'r rheolwyr yn eu cylch pan fyddant yn hwyr yn cael eu gweithredu i sicrhau y byddant yn cael sylw. Ar hyn o bryd mae dwy


weithred sydd wedi cyrraedd eu dyddiadau targed ac felly'n ‘hwyr’, fel y dangosir yn graff 2.

Mae’r weithred hwyr ‘bwysig' yn ymwneud â hyfforddiant i staff TG o ran eu cyfrifoldebau pe bai digwyddiad TG yn golygu bod angen cymryd camau adfer. Mae gwaith wedi cychwyn i fynd i'r afael â hyn a chan y byddwn yn cymryd camau dilyn-i-fyny cyn bo hir ym mis Ebrill 2021 yn sgil yr archwiliad ffurfiol o Wytnwch TG, byddwn yn gwerthuso'r cynnydd a wnaed ar gyfer y weithred hon bryd hynny.


Mae’r weithred sgôr ‘cymedrol’ sy'n hwyr yn ymwneud â’r angen am wiriadau rheolaidd, annibynnol o adroddiadau cyflogres. Mae'r weithred hon bellach wedi'i chwblhau ar y cyfan ac mae’r broses a'r cyfrifoldeb am y gwiriadau hyn wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, mae angen i'r drefn hon wreiddio nawr yn y gwasanaeth fel tasg arferol.

**Materion / Risgiau a godwyd ac gafodd sylw yn 2020/21**

3




4




O ganlyniad i'n gwaith archwilio mewnol yn 2020-21, codwyd cyfanswm o 21 o 'faterion / risgiau' a oedd angen sylw rheolwyr. O'r rhain, roedd 7 yn rhai 'pwysig' a 14 yn rhai 'cymedrol'.

O'r gweithredoedd a godwyd gennym ac a oedd i fod i gael eu cwblhau yn 2020-21, roedd y rheolwyr wedi mynd i'r afael â chwech o rai blaenoriaeth risg gymedrol cyn 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn berfformiad 100% yn y maes hwn.


Roedd pob un o'r chwech yn ymwneud ag archwiliad hunanasesu Covid-19 a gynhaliwyd gennym yng nghyfnod cynnar y pandemig ym mis Ebrill 2020. Pwrpas yr adolygiad oedd penderfynu a oedd gan y Cyngor drefniadau ymateb brys diogel, cadarn, effeithiol ac addas at y diben yn ystod cyfnod cynnar yr argyfwng. Dilynwyd y cynllun gweithredu i fyny ym mis Mai 2020 a chanfuwyd bod y rheolwyr wedi rhoi sylw i bob un o'r chwe gweithred.

## Statws y Materion / Risgiau

5




6



Mae’r graffiau uchod yn dangos ***statws*** cyfredol pob gweithred, h.y. a ydyn nhw ‘yn cael sylw’, ‘heb gychwyn’ neu ‘wedi cau’. Rydym yn gwirio pob gweithred sydd ‘wedi cau’ i sicrhau ein bod yn fodlon bod y camau a gymerwyd gan reolwyr wedi mynd i’r afael â’r risg a nodwyd yn wreiddiol.

Mae Graff 5 yn dangos statws yr holl wweithredoedd waeth erbyn pa bryd y cytunodd y rheolwyr i fynd i'r afael â nhw.  Mae'n dangos bod y rheolwyr bellach wedi mynd i'r afael â 40% ohonynt. Mae’r gwasanaeth archwilio mewnol wedi gwirio 38% o'r rhain. Mae'r 2% sy'n weddill yn ymwneud â chamau gweithredu o archwiliad Gwytnwch TG, y byddwn yn ei ddilyn i fyny'n ffurfiol ym mis Ebrill 2021 fel  y crybwyllwyd eisoes.  Byddwn yn gwirio bod y camau hyn wedi'u cwblhau yn ystod y darn hwn o waith.


Mae tua hanner y gweithredoedd a ddangosir yma fel rhai sydd ‘heb gychwyn’, yn ymwneud â dau archwiliad a gwblhawyd tua diwedd y flwyddyn, sef, ‘Taliadau - Cynnal Cyflenwyr’ a'r Panel Rhiant Corfforaethol’. Felly, nid oes disgwyl i'r gweithredoedd a nodwyd o ganlyniad i'r archwiliadau hyn fod wedi eu cwblhau eto.

Mewn cyferbyniad, mae Graff 6 yn dangos statws yr holl weithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. Mae'n dangos bod y rheolwyr wedi mynd i'r afael â dros 90% o'r rhain, gyda gwaith yn cael ei wneud i roi sylw i'r gweddill.  Rhaid i ni nodi fodd bynnag, y byddwn ar adegau yn estyn dyddiadau targed ar gyfer rhai gweithredoedd, ond dim ond os gall y gwasanaeth ddangos rheswm dilys dros yr estyniad, e.e. os daw’n amlwg bod y dyddiad targed gwreiddiol yn anghyraeddadwy, gan fod angen gwneud llawer mwy o waith i fynd i’r afael â’r mater / risg.

Oherwydd argyfwng Covid-19, rydym wedi ymestyn sawl dyddiad cau targed ar gyfer gwasanaethau sydd wedi canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig fel eu blaenoriaeth amlwg dros y 12 mis diwethaf.

**Materion / Risgiau sy'n Weddill fesul blwyddyn**

**7**




Fel y manylir uchod, mae 60 o weithredoedd sydd eto i'w cyflawni'n llawn.

Mae'r rhain wedi'u gwasgaru rhwng 2014/15 a 2020/21. Er bod y graff yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae'n tynnu sylw at nifer fach o hen weithredoedd nad yw'r rheolwyr wedi mynd i'r afael â nhw'n llawn eto. Mae'r 'hynaf' yn dyddio'n ôl i 2014/15 ac yn ymwneud â'r angen am wiriadau rheolaidd, annibynnol o adroddiadau cyflogres, fel y manylwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Fel yr adroddwyd, mae gwaith wedi hen gychwyn i fynd i'r afael â hyn ac mae'r rheolwyr wedi ein sicrhau y bydd yn cael ei gwblhau cyn bo hir.

Mae'r weithred sy'n weddill o 2015/16 yn ymwneud â'r gofyn i wasanaethau roi sicrwydd bod eu gweithgaredd caffael yn effeithiol yn y broses herio gwasanaeth flynyddol. Unwaith eto, mae gwaith wedi cychwyn i fynd i'r afael â hyn ac rydymm yn disgwyl y bydd wedi cael sylw mewn pryd ar gyfer y broses her gwasanaeth nesaf.

Dylid nodi bod y ddwy 'hen' weithred hyn yn cael eu cyfrif fel rhai ‘cymedrol’ o ran blaenoriaeth risg. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i ddilyn i fyny'r holl weithredoedd sydd heb eu cyflawni i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Ebrill 2021 |
| **Pwnc:** | Strategaeth Archwilio Mewnol 2021-22 - Drafft |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn penderfynu a yw'n bodloni gofynion sicrwydd y Cyngor. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog archwilio sefydlu cynllun sy'n seiliedig ar risg er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau'r gweithgareddau archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r rhain (Safon 1110). | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol 2021-22 arfaethedig wedi ei hatodi ar gyfer ei hadolygu a'i thrafod gan y Pwyllgor.

## 2. Cefndir

2.1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) angen i mi, fel y prif swyddog archwilio, sefydlu cynlluniau sy'n seiliedig ar risg er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau'r gweithgareddau archwilio mewnol sy'n gyson â nodau'r Cyngor. Wrth flaenoriaethu ein hadnoddau cyfyngedig, mae'n rhaid i ni wneud gwaith digonol er mwyn fy ngalluogi i ddarparu barn archwilio mewnol flynyddol fel y gall y Cyngor siapio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

2.2. Fel sail i'r gwaith archwilio, rydw i wedi defnyddio'r gofrestr risg gorfforaethol er mwyn penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau archwilio mewnol. Yn ychwanegol at hynny, rydw i wedi cyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a phenaethiaid gwasanaeth er mwyn trafod eu safbwyntiau am y meysydd arfaethedig ar gyfer eu hadolygu a'r meysydd sy'n achosi pryder.

2.3. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y sefyllfa bresennol, byddaf yn parhau i adolygu'r blaenoriaethau yn ôl yr angen, mewn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau a rhaglenni'r Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol. Byddaf yn adrodd ar y newidiadau i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 3. Argymhelliad

3.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22 ac yn ystyried a yw'r dull a'r blaenoriaethau a amlinellir yn bodloni anghenion sicrwydd y Cyngor.



# STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL DDRAFFT 2021-22 EBRILL 2021


**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611


CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# TABL CYNNWYS

RHAGAIR - Y CYD-DESTUN CYFREDOL ____ 3
CYFLWYNIAD ____ 4
STRWYTHUR y GWASANAETH, CAPASITI A HYFFORDDIANT ____ 5
Hyfforddiant ____ 6
DULL ARCHWILIO ____ 7
Archwilio sy’n seiliedig ar Risg ____ 7
Mapio Sicrwydd ____ 7
Archwillio Ystwyth ____ 8
BLAENORIAETHAU ____ 9
Cofrestr Risg Gorfforaethol ____ 9
Cofrestr Risg Covid-19 ____ 9
Twyll ____ 10
Cyllid Gofal Cymdeithasol i Oedolion ____ 11
Cyllid Grant ____ 11
Archwiliad TG ____ 11
Ad-daliadau’r Dreth Gyngor a Threthi Annomestig ____ 12
Archwiliad Diogelwch Nwy ____ 12
Monitro Parhaus ____ 12
Gwaith sy’n weddill o 2020-21 ____ 12
DILYN-I-FYNY ____ 13
MESURAU PERFFORMIAD ____ 14
Meincnodi ____ 14
HERIAU I’R DYFODOL ____ 15

# RHAGAIR – Y CYD-DESTUN CYFREDOL

Heb os, mae amgylchiadau digynsail y pandemig coronafeirws byd-eang wedi siapio'r rhagolygon ar gyfer 2021-22. Fodd bynnag, nid yw coronafeirws ei hun yn brif risg. Yn hytrach na pheri bygythiadau newydd, mae wedi gwaethygu'r risgiau cyfredol, eu rhoi mewn goleuni newydd a gorfodi'r Cyngor i feddwl amdanynt yn wahanol neu i bennu lefelau newydd o flaenoriaeth iddynt. Er enghraifft, mae seiberddiogelwch a diogelwch data yn risgiau bob blwyddyn ond mae gweithio gartref ar raddfa fawr wedi golygu bod risgiau seiberddiogelwch wedi cynyddu, ac addaswyd seilwaith TG a wal derfyn y Cyngor yn gyflym. Yn anochel, mae ymdrechion gwe-rwydo a digwyddiadau peirianneg gymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol iawn wrth i 'actorion drwg' geisio manteisio ar wendidau diogelwch oherwydd bod staff yn gweithio gartrefi.

Felly mae systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol sydd wedi hen ennill eu plwyf wedi bod yn hollbwysig yng nghanol yr amharu mawr ar weithrediadau'r Cyngor. Gwerthuswyd yn gyflym yr hyn y gallem ei gyflawni yn 2020-2021; fe ddaru ni ailedrych yn aml ar flaenoriaethau archwilio y cytunwyd arnynt gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i bennu blaenoriaethau newydd. Buom yn gweithio y tu allan i'r cynllun, gan wybod bod ein cynigion cychwynnol ar gyfer 2020-21 wedi dyddio'n gyflym. Trwy fanteisio ar ein dull hyblyg o weithio, rhoddasom sicrwydd amser gwirioneddol a oedd wedi'i dargedu at y risgiau a oedd yn peri'r pryder mwyaf.

Rydym yn rhagweld manteisio ar y dull mwy hyblyg ac ystwyth hwn am gyfnod amhenodol, trwy barhau i edrych ymlaen, bod yn rhagweithiol ac aros mor agos at y sefydliad â phosib i ddeall ei risgiau a'i anghenion. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau cyfyngedig yn ddoeth i gynnal cydbwysedd gofalus rhwng rheoli anghenion sicrwydd brys, tymor byr a thymor hir. Yn gynyddol, mae hyn yn cynnwys nid yn unig ystyriaethau gweithredol ond hefyd risgiau a ffactorau strategol yn yr amgylchedd allanol sy'n effeithio ar y sefydliad.

Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn dibynnu ar y safbwynt annibynnol, ystwyth ac o'r brig i lawr hwn i gael mewnwelediad i'r sefydliad a'r risgiau iddo yn ystod yr hyn sy'n parhau i fod yn gyfnod sylweddol heriol.

# CYFLWYNIAD

**Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n darparu sicrwydd a chyngor i reolwyr ar bob lefel ac i aelodau etholedig ac aelodau lleyg ar ansawdd gweithrediadau yn y Cyngor.**

Rydym yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus[1] (PSIAS), sy'n diffinio archwilio mewnol fel:

> **Mae archwilio mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori annibynnol, gwrthrychol sydd wedi'i gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni ei amcanion trwy ddull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu.**

Agwedd bwysig ar archwilio mewnol yw i ba raddau y mae'n helpu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion a gwella. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'n gwaith ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i'r sefydliad, a rhaid i'r farn a'r awgrymiadau gwella a ddarparwn helpu'r sefydliad a chael eu gwerthfawrogi gan randdeiliaid. Felly mae amcanion y gwasanaeth fel a ganlyn:

- Rhoi sicrwydd a chyngor annibynnol i reolwyr, aelodau etholedig ac aelodau lleyg ar reoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol
- Datblygu a hyrwyddo ein rôl i wneud cyfraniad sylweddol at nod y Cyngor i foderneiddio, darparu effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid
- Ychwanegu gwerth ym mhob maes o'n gwaith, gan ddarparu gwasanaeth ardderchog i'n cwsmeriaid

---


[1] Mae'r Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (CIPFA, yr Adran Iechyd, Llywodraeth Cymru, yr Adran Gyllid (Gogledd Iwerddon), Trysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth yr Alban) yn cyhoeddi Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017) ac maent yn orfodol i bob corff llywodraeth leol a chanolog.

# STRWYTHUR Y GWASANAETH, CAPASITI A HYFFORDDIANT

**Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf;** gydag integreiddio'r timau Archwilio Mewnol a Rheoli Risg, mabwysiadu dull sy'n gwbl seiliedig ar risg, y model 'tair llinell' ac, yn fwy diweddar, mae mabwysiadu dull 'archwilio ystwyth' wedi gwella'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Cyngor.

Mae'r tîm wedi ymateb yn dda; mae staff wedi addasu eu sgiliau, wedi cynnal archwiliadau mwy cymhleth a lefel strategol mewn llai o amser, ac wedi rheoli llwythi gwaith uwch. Mae trosiant staff yn dal i fod yn broblem, er gwaethaf ymarfer recriwtio diweddar. Ar hyn o bryd mae gennym 1.5 o swyddi gwag (cyfwerth ag amser llawn) ar lefel Uwch Archwilydd oherwydd secondiad a throsglwyddiad mewnol, a 0.2 o swydd wag (cyfwerth ag amser llawn) ar lefel Cynorthwy-ydd Archwilio oherwydd gweithio'n hyblyg.

Fodd bynnag, mae'r tîm yn parhau i gynnwys cyfoeth o brofiad archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â chymysgedd ardderchog o gymwysterau proffesiynol, gan gynnwys CIPFA[2] a CIIA[3] a chymwysterau academaidd mewn Rheoli Newid, Busnes a Chyfrifyddiaeth.







[2] Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
[3] Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol

## Hyfforddiant

Bydd y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi i sicrhau bod y tîm yn parhau â'i ddatblygiad proffesiynol ac yn cadw i fyny â'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn hefyd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle bo angen. Bydd y tîm yn buddsoddi tua 100 diwrnod mewn hyfforddiant a datblygiad yn ystod 2021-22, gan gynnwys:



# DULL ARCHWILIO

Mae'r proffesiwn Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol ers ei ddyddiau'n gwirio cydymffurfiaeth pan oedd gwaith archwilio'n canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r gorffennol a sicrhau cydymffurfiaeth. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw cydymffurfio. Mae archwilio wedi esblygu, gan symud o archwilio sy'n 'seiliedig ar systemau' i archwilio sy'n 'seiliedig ar risg', ac yn fwy diweddar, mae wedi mabwysiadu dull 'archwilio ystwyth' i helpu sefydliadau i edrych ymlaen a mynd i'r afael â materion a allai effeithio ar berfformiad.

## Archwilio sy'n seiliedig ar Risg

Mae Safon 2010 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu dull sy'n seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgaredd archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad.

O ganlyniad, y ffordd orau i'r gweithgaredd archwilio mewnol proffesiynol gyflawni ei genhadaeth fel conglfaen llywodraethu yw trwy leoli ei waith yng nghyd-destun fframwaith rheoli risg y sefydliad ei hun. Felly, rydym wedi alinio ein gweithgaredd archwilio mewnol â'r cofrestrau risg corfforaethol.

Er mwyn darparu dull mwy ystwyth ac i gymryd newidiadau yn y sefydliad a'r amgylchedd risg i ystyriaeth, rydym hefyd yn cwrdd ag uwch reolwyr i drafod eu risgiau, eu pryderon a'u gofynion diweddaraf. Yn y modd hwn, rydym yn gwbl ymwybodol o'r materion sy'n dod i'r amlwg ac yn gallu canolbwyntio ein hadnoddau yn y meysydd sydd â'r flaenoriaeth a'r risg fwyaf.

## Mapio Sicrwydd

Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol mewn sefyllfa unigryw yn y  sefydliad i roi sicrwydd cyfannol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, llywodraethu a rheoli risg.

Mae'r 'model tair llinell' yn fframwaith y gellir ei ddefnyddio i ddod â'r ffynonellau sicrwydd hyn at ei gilydd, a bydd yn rhoi sicrwydd i aelodau, rheoleiddwyr sector ac archwilwyr allanol bod rheolaethau a phrosesau priodol ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol.

Rydym yn defnyddio ein meddalwedd rheoli risg (4risk) i gofnodi’r ‘tair llinell’:

- Llinell Gyntaf - Rheolaeth: Swyddogaethau gweithredol a swyddogaethau cymorth fel AD a Chyllid
- Ail Linell - Rheolaeth, e.e. Cyfreithiol, Diogelwch Gwybodaeth, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Risg Menter / Risg
- Trydydd Llinell - sicrwydd cyffredinol a ddarperir gan gyrff rheoleiddio mewnol, allanol neu eraill a'r Corff Llywodraethol (Atebolrwydd)

Byddwn yn gweithio gyda’r llinell gyntaf a’r ail linell i ddarparu'r fath sicrwydd, a chyda Tîm Busnes a Pherfformiad Corfforaethol y Cyngor, i gefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

## Archwillio Ystwyth

Y prif wahaniaeth rhwng archwilio ystwyth ac archwilio traddodiadol yw hyblygrwydd. Yn lle cynllunio anhyblyg, un cam, mae archwilio ystwyth yn canolbwyntio ar gynllunio hyblyg, ailadroddol ar sail barhaus. Mewn gwaith archwilio traddodiadol, mae'r cynllunio’n digwydd fisoedd os nad blynyddoedd ymlaen llaw, a all olygu bod y ‘cynllun’ wedi dyddio cyn iddo gael ei gymeradwyo hyd yn oed.

Mae cylch cynllunio hyblyg yr archwiliadau ystwyth yn caniatáu i dimau flaenoriaethu tasgau yn seiliedig ar risgiau ac anghenion y sefydliad. Yn lle dilyn cynllun archwilio mewnol anhyblyg, mae ôl-groniad o archwiliadau a phrosiectau yn cael ei ddiweddaru'n barhaus.

Wrth archwilio'n ystwyth, mae ffocws craidd ar gydweithio a chyfathrebu rhwng y tîm archwilio a rhanddeiliaid trwy gydol yr holl brofiad. Er bod ansawdd archwilio bob amser yn ystyriaeth allweddol, mae cyflymder ac effeithlonrwydd yn cael blaenoriaeth dros gyflawni prosiect cwbl gaboledig ar y diwedd. Mae'r cyfathrebu'n digwydd yn amlach ac yn anffurfiol ac nid oes unrhyw bethau annisgwyl.

Mwya'n y byd yr ydym yn ei wybod, a chynharaf yn y byd y byddwn yn ei wybod, gorau yn y byd o ran mynd i'r afael â materion rheoli a risg posib. Mae hyn yn helpu i leihau'r effaith negyddol ar gwsmeriaid, staff ac aelodau.

# BLAENORIAETHAU

## Cofrestr Risg Gorfforaethol

Er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r Cyngor, bydd y rhan helaethaf o’r gweithgaredd archwilio mewnol yn adolygiad o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr ar y gofrestr risg gorfforaethol. Y rhain fydd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer adolygiadau archwilio mewnol. Ar hyn o bryd, mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys saith risg lle mae'r Cyngor wedi asesu'r risg gynhenid a gweddilliol fel risgiau coch, sef:

- Y risg na ellir darparu gwasanaethau allweddol yn dilyn **digwyddiad mawr** (e.e. argyfwng sifil, llifogydd mawr, pandemig, clwy'r traed a genau, prif gontractwr yn peidio â masnachu ac ati) (newydd)
- Y risg y bydd **ymosodiad seiber** yn cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a chymorth
- Y risg bod **methiant TG** yn effeithio'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau
- Y risg bod y **DU wedi tynnu allan o'r UE** (Brexit) yn cael effaith negyddol ar Ynys Môn
- Y risg y bydd y **gostyngiad yng nghyllid y Cyngor** yn parhau ac yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol, methu cyflawni blaenoriaethau, methu buddsoddi a phwysau staffio cynyddol
- Y risg na fydd Ynys Môn yn **adfer yn llwyr o argyfwng Covid-19** (newydd)
- Y risg na fydd asedau ffisegol y Cyngor (e.e. adeiladau, ffyrdd, rhwydwaith TG) **yn addas i'r pwrpas** os na all y Cyngor fuddsoddi'n ddigonol i'w cynnal a'u datblygu (newydd)

Mae'r 10 risg gynhenid goch sy'n weddill sydd â risg weddilliol  ambr yn cynnwys iechyd a diogelwch, recriwtio a chadw, diogelu, newid demograffig, moderneiddio ysgolion, seilwaith, safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, tlodi, Gwywiad yr Onnen a newid yn yr hinsawdd.

## Cofrestr Risg Covid-19

Byddwn hefyd yn adolygu sut y rheolir cofrestr risg Covid-19 i sicrhau bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn effeithiol.

## Twyll

Mae'r pandemig presennol yn creu amgylchedd delfrydol ar gyfer twyll. Mae traciwr 'Twyll a Llygredd' CIPFA 2019-20 yn tynnu sylw at y meysydd twyll mwyaf (yn ôl eu gwerth), sef :

- Twyll tai (51%)
- Twyll Treth Gyngor (15%)
- Twyll Trethi Busnes (3%)
- Consesiynau Parcio i'r Anabl (3%)
- Mae risgiau twyll eraill yn cynnwys gofal cymdeithasol i oedolion, caffael, cyflogres, twyll credydwyr a threuliau, a welodd y Cyngor yn gynnar yn 2020.

Mae adroddiad diweddar gan Gymdeithas yr Archwilwyr Twyll Ardystiedig yn dangos sut y gall llinellau adrodd am dwyll a hyfforddiant i weithwyr wella'r gallu i ddod o hyd i dwyll. Mae'n dangos mai gweithwyr yw'r ffynhonnell orau o ran rhoi gwybod am dwyll a bod y mwyafrif o adroddiadau'n dod trwy fecanweithiau adrodd ar-lein. Mae hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dwyll yn cael cryn effaith o ran cynyddu nifer yr achosion y ceir gwybod amdanynt.

Yn ystod 2021-22, byddwn felly'n mynd ati i ddarparu hyfforddiant a phecyn e-Ddysgu i godi ymwybyddiaeth a darganfod twyll yn y sefydliad a byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu mecanwaith adrodd ar-lein.

Byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau gwrth-dwyll sydd wedi'u targedu, gan gynnwys adolygu twyll sy'n ymwneud â chaffael, ac yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru gyda'i Menter Genedlaethol i Atal Twyll.

Byddwn hefyd yn parhau i adolygu dull y Cyngor o fynd i'r afael â thwyll, atal llwgrwobrwyo a llygredd, atal gwyngalchu arian ac atal ariannu terfysgaeth. Byddwn yn diweddaru'r Cynllun Ymateb i Dwyll yn unol â hynny.

## Cyllid Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae'r bwlch cyllido o ran gofal cymdeithasol yn cynyddu, sy'n rhoi pwysau difrifol ar y Cyngor i reoli ei incwm a'i wariant yn y maes hwn. Mae galw cynyddol am wasanaethau a chymorth, ond llai o adnoddau a chapasiti i ddarparu. Mae cost ariannol uniongyrchol hefyd i awdurdodau lleol a risg i enw da os methir â chwrdd â gofynion statudol.

Ar gais y cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, byddwn yn adolygu'r fframwaith codi tâl ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.

## Cyllid Grant

Ariennir y Cyngor yn gynyddol gan grantiau unwaith ac am byth, a dderbynnir yn aml ar fyr rybudd. Felly, byddwn yn cynnal adolygiad o barodrwydd y Cyngor i ymateb i gyfleoedd cyllid grant.

## Archwiliad TG

Yn ôl y Llywodraeth, TG yw un o'r pedair prif risg i ddiogelwch cenedlaethol y DU. Gyda thair risg sy'n gysylltiedig â TG yn y gofrestr risg gorfforaethol, mae'n amlwg bod TG yn risg (a chyfle) sylweddol i'r Cyngor. Mae risgiau sylweddol o gael ei hacio, methu â defnyddio systemau allweddol neu o fethu cael mynediad i ddata allweddol. Gall pob un o'r rhain wneud drwg i enw da'r Cyngor, neu arwain at ddirwyon am dorri GDPR a methiant i ddarparu gwasanaeth i gleientiaid bregus.

Gydag ymosodiadau yn dod yn fwy soffistigedig ac yn cael eu gweld fel cyfle mawr i droseddwyr wneud arian, rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhagweithiol. Ar ôl cwblhau tri darn sylweddol o waith yn y maes hwn, rydym wedi disbyddu ein galluoedd technegol. Felly rydym wedi comisiynu Adran TG Cyngor Dinas Salford i ymgymryd â rhaglen waith i roi'r sicrwydd i'r Cyngor bod ei wendidau TG yn cael eu rheoli'n effeithiol.

## Ad-daliadau'r Dreth Gyngor a Threthi Annomestig

Amlygodd archwiliad o daliadau dyblyg a gynhaliwyd yn ystod 2020-21 fod posibilrwydd o wneud taliadau dyblyg a gwendidau rheoli yn y system ar gyfer ad-dalu'r dreth gyngor a threthi annomestig. Byddwn yn adolygu'r system i sicrhau mai dim ond ad-daliadau dilys a wneir.

## Archwiliad Diogelwch Nwy

Ar gais y Pennaeth Tai, byddwn yn adolygu'r broses archwilio  diogelwch nwy a'r broses weinyddol gysylltiedig i roi sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol.

## Monitro Parhaus

Yn gynnar yn 2021, prynasom feddalwedd i'n galluogi i ddadansoddi llawer iawn o ddata'n gyflym ac yn rhwydd. Defnyddiwyd y feddalwedd wrth gynnal archwiliad o daliadau dyblyg yn y swyddogaeth Taliadau, ac fe'n helpodd ni i nodi dros £178k o daliadau dyblyg.

Yn ogystal â dadansoddi data yn ystod archwiliadau eraill, byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y swyddogaeth Taliadau i nodi taliadau dyblyg a methiannau eraill yn y prosesau prynu a thalu.

Trwy'r monitro parhaus hwn, byddwn yn nodi methiannau rheoli posib, a'r goblygiadau ariannol, yn gynt. P'un a yw'n arbed arian i'r Cyngor, neu ddim yn golled sylweddol, mae darganfod methiannau rheoli yn gynnar yn golygu y gellir cymryd camau cywiro buan.

## Gwaith sy'n weddill o 2020-21

Oherwydd y pandemig, cafodd hanner y tîm archwilio mewnol ei secondio i gefnogi'r ymateb rheng flaen i'r argyfwng. Effeithiodd hyn yn sylweddol ar ein gallu i gyflawni'r gwaith yr oeddem wedi'i nodi cyn i'r pandemig gydio a rhoddwyd rhywfaint o waith o'r neilltu. Felly byddwn yn ailgychwyn y gwaith hwn:

- Gosod tai
- Digartrefedd (sgôp wedi'i ymestyn i gynnwys effaith Covid-19)
  Adennill Dyledion i'r Cyngor (sgôp wedi'i ymestyn i gynnwys effaith Covid-19)
- Cardiau Prynu mewn Ysgolion

# DILYN–I-FYNY

Mae Safon 2500 yn nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu proses dilyn-i-fyny i fonitro a sicrhau bod rheolwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau a godwyd neu fod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â gweithredu.

Gall blaenoriaethau eraill, cyfyngiadau cyllidebol a ffactorau eraill atal rheolwyr rhag mynd i'r afael â Materion / Risgiau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni neu fel y cynlluniwyd yn flaenorol i liniaru'r risg.

Mae rheolwyr nad ydynt yn mynd i'r afael â Materion / Risgiau sy'n codi o waith archwilio mewnol yn peryglu'r sefydliad. Trwy ddilyn i fyny, mae hyn yn helpu i'w atal rhag dod yn broblem.

Yn unol â'n Siarter Archwilio Mewnol, byddwn yn cymryd camau ffurfiol i ddilyn i fyny'r holl Faterion / Risgiau a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio gyda sgôr Sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim Sicrwydd'. Pan fydd adroddiadau'n parhau i ddenu sgôr Sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim Sicrwydd', gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wahodd perchennog y risg neu'r pennaeth y gwasanaeth i ddod i gyfarfod i drafod yr adroddiad.

Byddwn yn helpu'r sefydliad i dracio gweithrediad yr holl gamau a byddwn yn cofnodi'r holl gamau y cytunwyd arnynt ar system dracio fewnol (4action).

# MESURAU PERFFORMIAD

Mae archwilio mewnol ar sail risg yn arloesol ac yn flaengar o ran arferion archwilio mewnol. Mae'n broses ddeinamig ac felly mae'n anos ei rheoli na methodolegau traddodiadol. Mae monitro cynnydd yn erbyn cynllun sy'n newid yn gyson yn her. Fodd bynnag, mae'r manteision yn gorbwyso'r anawsterau hyn ac rydym wedi adolygu ein mesurau perfformiad i sicrhau bod yr anawsterau o ran mesur effeithiolrwydd archwilio mewnol yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau bpd ein gwasanaeth archwilio mewnol yn gwella'n barhaus. Rydym wedi mabwysiadu cyfres lai a symlach o fesurau perfformiad i werthuso effeithiolrwydd ein gwaith, a welir yn y tabl isod.

| Dangosydd Perfformiad | Targed 2021/22 | Perfformiad 2020/21 | Perfformiad 2019/20 | Perfformiad 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol a archwiliwyd[4] | 80% | 28% | 50% | 29% |
| Archwiliadau a gwblhawyd cyn pen chwe mis | 100% | 85% | 93% | Heb ei fesur |
| Clientiaid sy’n ymateb eu bod o leiaf yn ‘fodlon’ | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Nifer y staff | 5.0 Cyfwerth ag Amser Llawn | 2.6 Cyfwerth ag Amser Llawn[5] | 4.0 Cyfwerth ag Amser Llawn | 4.0 Cyfwerth ag Amser Llawn |

## Meincnodi

Yn allanol, lle bo hynny'n berthnasol, byddwn yn parhau i feincnodi ein perfformiad yn erbyn yr 21 aelod arall o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru

[4] Oherwydd natur weddol sefydlog y risgiau hyn, caiff hyn ei fesur dros gyfnod o 24 mis o 2021-22

[5] 0.7 cyfwerth ag amser llawn yn cefnogi ymateb i Covid-19; colli 0.4 cyfwerth ag amser llawn oherwydd salwch tymor hir; colli 1.7 cyfwerth ag amser llawn oherwydd swyddi gwag a gweithio'n hyblyg

# HERIAU I'R DYFODOL

Mewn tîm bach, gall absenoldeb staff gael effaith sylweddol. Mae absenoldeb tymor hir parhaus, swyddi gwag oherwydd secondiad a dyrchafiad mewnol, ac adleoli i swyddogaethau ymateb brys I Covid-19 yn parhau i leihau'n sylweddol yr adnoddAU sydd ar gael i gyflawni'r gweithgaredd archwilio mewnol.

Fodd bynnag, mae'r profiad o'r llynedd wedi bod yn werthfawr o ran yr hyn a ddysgwyd. Mae tîm newydd, brwdfrydig ac ymroddedig, a meddalwedd tracio newydd, wedi rhoi'r tîm archwilio mewnol mewn sefyllfa dda i sicrhau y gellir cyflawni ei strategaeth. O ganlyniad, bydd yn parhau i gefnogi'r Cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu, **gan alluogi'r Pennaeth Archwilio a Risg i gyflawni'r gofyn i ddarparu barn archwilio mewnol bob blwyddynl, i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Archwilio 2021 – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2315A2021-22

**Fersiwn ddrafft yw'r ddogfen hon tra byddwn yn cael trafodaethau pellach gyda'r corff a archwiliwyd ac a arolygwyd. Efallai nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid ei dosbarthu'n eang.**

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a phan fo hynny’n berthnasol, yr archwilydd sy’n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru drwy e-bost: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

DRAFT

# Cynnwys


Cynllun Archwilio 2021

| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r ddogfen hon | 4 |
| Fy nyletswyddau | 4 |
| Effaith COVID-19 | 5 |
| Archwiliad o'r datganiadau ariannol | 5 |
| Archwiliad perfformiad | 9 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 11 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 12 |
| Ffi, tîm archwilio ac amserlen | 12 |


DRAFT

# Cynllun Archwilio 2021

## Ynglŷn â'r ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith y bwriadaf ei wneud yn ystod 2021 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Fy nyletswyddau

2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

### Archwilio datganiadau ariannol

3 Bob blwyddyn rwy'n archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) i sicrhau y rhoir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

### Gwerth am arian

4 Rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i mi fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

### Gwelliant parhaus

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor yn debygol o fodloni'r gofynion hyn (neu wedi gwneud hynny).

6 Bydd rhai o ofynion y Mesur yn dod i ben yn ystod 2021-22 oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fodd bynnag , rhagwelaf y bydd yn dal yn ofynnol i mi archwilio'r asesiad y bydd y Cyngor yn ei gyhoeddi o'i berfformiad sy'n cwmpasu'r flwyddyn 2020-21, yn ystod 2021-22.

### Egwyddor datblygu cynaliadwy

7 Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

## Effaith COVID-19

8 Mae pandemig COVID-19 yn parhau i gael effaith sylweddol ar draws y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus. Fel yn 2020, mae'n debygol o effeithio'n sylweddol ar baratoi cyfrifon 2020-21 a'm gwaith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.

9 Mae datblygiadau diweddar mewn cysylltiad â rhaglen frechu yn dangos y disgwylir i gyfyngiadau Llywodraeth Cymru ar symud a'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch a ragwelir leddfu drwy 2021. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod ansicrwydd sylweddol o hyd a deallaf efallai na fydd llawer o awdurdodau lleol yn gallu paratoi cyfrifon yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Yn ogystal â chyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Cyffredinol, fy mlaenoriaeth yw sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru, eu teuluoedd a chyfrifoldebau ein partneriaid mewn mannau eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus ar yr adeg hynod heriol hon.

10 Bydd staff Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n hyblyg i gyflawni'r gwaith archwilio a nodir yn y cynllun hwn. Mewn ymateb i gyngor y llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, byddwn yn parhau i weithio o bell, gan adeiladu ar y trefniadau a wnaed yn 2020, hyd nes y bydd yn ddiogel ailddechrau gweithgareddau ar y safle. Rwyf wedi ymrwymo o hyd i sicrhau na fydd gwaith staff Archwilio Cymru yn amharu ar y gweithgareddau hanfodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud i ymateb i heriau parhaus a gyflwynir gan bandemig COVID-19.

11 O ganlyniad, er bod y cynllun archwilio hwn yn nodi amserlen gychwynnol ar gyfer cwblhau fy ngwaith archwilio, mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch effaith COVID-19 ar y sector yn golygu y gallai fod angen ailedrych ar rai amseriadau. Bydd fy nhîm archwilio yn trafod y diwygiadau sy'n ofynnol i'r amserlen arfaethedig gyda'r awdurdod wrth i sefyllfa 2021 ddod yn gliriach.

## Archwiliad o'r datganiadau ariannol

12 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adrodd ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:

- barn ar 'wirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021; ac
- asesiad ynghylch a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn cael eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol a'u bod yn gyson â'r datganiadau ariannol â'm gwybodaeth i am y Cyngor.

13 Yn ogystal â'm cyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan;

- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau am y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen);
- archwilio cyfrifon cronfa bensiwn y Cyngor (paratowyd cynllun archwilio ar wahân ar gyfer archwilio'r gronfa bensiwn); ac
- ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff ariannu.

14 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar wirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

15 Byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd o dan lefel ddibwys (a bennir ar 5% o berthnasedd ) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad amdanynt.

16 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn. Os cafodd unrhyw gyfyngiadau eu gosod dylid eu datgan yma neu mewn lle priodol yng nghorff y ddogfen.

17 Byddaf hefyd yn adrodd drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

## Risgiau archwilio'r datganiadau ariannol

18 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau sylweddol yr wyf wedi'u nodi ar gyfer archwilio'r Cyngor.

**Arddangosyn 1: risgiau archwilio'r datganiad ariannol**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau archwilio datganiad ariannol allweddol a nodwyd yn ystod cam cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad |
|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau i'w gweld ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai'r gwrthwneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31- 33] | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol; |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad |
| --- | --- |
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| | • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tueddiadau; a<br>• gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. |
| **Effaith COVID-19**<br>Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn parhau a gall y pwysau ar adnoddau staff a gweithio o bell effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Mae perygl y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol e.e. amcangyfrifon a phrisiadau, gael eu peryglu gan arwain at fwy o achosion o wallau. Gall trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu ba mor rhwydd yw hi i gael gafael ar adnoddau. | Byddwn yn trafod eich proses gau a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i nodi meysydd lle gall fod bylchau yn y trefniadau. |
| Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar beryglon camddatganiadau perthnasol a ffurf a dull fy archwiliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod amryw o ffrydiau ariannu ar gael i'r Cyngor. Mewn rhai achosion, mae'r arian hwn yn rhoi cymorth ariannol i'r awdurdod ei hun. Mewn achosion eraill, gweinyddir yr arian gan y Cyngor, gan wneud taliadau i drydydd partïon ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r symiau dan sylw yn berthnasol i'r cyfrifon.<br>Mae enghreifftiau o risgiau archwilio yn cynnwys:<br>• Triniaeth gyfrifyddu anghywir ar gyfer cyllid COVID-19 h.y. prif drefniadau neu drefniadau asiantaeth<br>• Risgiau twyll/gwallau | Byddwn yn adolygu'r ffrydiau ariannu a dderbynnir oddi wrth Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau'r driniaeth gyfrifyddu briodol gyda'r Cyngor. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad |
|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| • Ansicrwydd prisio posibl ar ddiwedd y flwyddyn<br>• Amcangyfrif o ddarpariaethau gwyliau blynyddol cronedig | |
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| **Dyfarniad McCloud**<br>Yn 2015 cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o weithwyr y sector cyhoeddus wedi cael eu symud i gynlluniau pensiwn newydd yn 2015.<br>Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y trefniadau 'gwarchodaeth drosiannol' yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon.<br>Daeth ymgynghoriadau ar rwymediïau arfaethedig ar gyfer cynlluniau pensiynau Llywodraeth Leol, yr Heddlu a Thân i ben ym mis Hydref 2020. Cyhoeddodd y Llywodraeth yn ddiweddar mai tanategu fydd y model dewis gohiriedig a disgwylir i'r manylion terfynol gael eu cyhoeddi yn ystod 2021.<br>Mae effaith y dyfarniad yn debygol o gael effaith sylweddol ar rwymedigaethau datgelu'r IAS 19. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol mewn cysylltiad â dyfarniad McCloud ac yn monitro cynnydd ar ganlyniad yr ymgynghoriad sydd i'w gymhwyso yng nghynlluniau pensiwn Llywodraeth leol. |

## Materion eraill

19 Mae dau fater pellach y bydd fy nhîm archwilio yn ymgymryd â gwaith cynnar arnynt wrth baratoi ar gyfer archwiliad 2021-22.

**Arddangosyn 2: Materion eraill**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi risgiau archwilio’r datganiad ariannol allweddol a nodwyd yn ystod cam cynllunio'r archwiliad.

| Materion eraill | |
|---|---|
| Unwaith eto, mae CIPFA/LASAAC wedi gohirio cyflwyno IFRS 16 tan 1 Ebrill 2022. Fodd bynnag, bydd angen i'r awdurdod wneud gwaith sylweddol i nodi prydlesi, a gall pandemig COVID-19 achosi risgiau gweithredu. | Bydd fy nhîm yn gwneud rhywfaint o waith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno Prydlesi IFRS 16. |
| Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Yn rhan o’i ddarpariaethau mae sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJC) i ddarparu gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod ar hyn o bryd. | Bydd fy nhîm yn cynnal adolygiad cynnar o'r paratoadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud ar gyfer trefniadau cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â throsglwyddo gwasanaethau i'r CJC. |

# Archwiliad perfformiad

20 Yn ogystal â'm Harchwiliad o Ddatganiadau Ariannol rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel y nodir ar dudalen 4 mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

21 Mewn ymateb i'r pandemig, rwyf wedi mabwysiadu dull hyblyg o ymdrin â'm gwaith archwilio perfformiad o ran cwmpas a methodoleg pynciau. Mae fy ngwaith ar gynllunio adferiad, dysgu o COVID-19 a'm gwaith sicrwydd ac asesu risg yn enghreifftiau o hyn. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n symud yn gyflym a rhoi mwy o adborth amser real mewn amrywiaeth o fformatau.

22 Ar gyfer 2021-22, rwy'n bwriadu adeiladu ar y dull hwn i helpu i alluogi fy ngwaith i fod yn ymatebol ac yn amserol, a lle bo'n bosibl rhannu dysgu'n gyflymach. Fel rhan o'r dull hwn, rhagwelaf y bydd cyfran sylweddol o'm rhaglen archwilio perfformiad lleol yn cael ei chyflawni drwy'r Prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg, a fydd yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn.

23 O ystyried y lefel uchel o gyffredinedd yn y risgiau sy'n wynebu cynghorau ar hyn o bryd rwyf hefyd yn bwriadu cyflawni nifer o brosiectau thematig sy'n archwilio risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.

24 Rwyf wedi ymgynghori â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y byddaf yn ymdrin â'm dyletswyddau mewn cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei ymestyn oherwydd y pandemig.

25 Yn fy ymgynghoriad rwyf wedi nodi a gofyn am sylwadau ar gynigion i:

a) parhau i gynnal archwiliadau penodol i asesu'r broses o bennu amcanion llesiant a sut y mae camau'n cael eu cymryd i'w cyflawni, yn y drefn honno;

b) integreiddio'r gwaith o archwilio camau ochr yn ochr ag astudiaethau gwerth am arian a gwaith archwilio lleol, lle bynnag y bo modd; a

c) chryfhau ac ehangu'r gwaith o gydlynu gwaith gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

26 Byddaf yn ysgrifennu at y 44 corff cyhoeddus a ddynodwyd o dan y Ddeddf yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad a sut y bwriadaf ymdrin â'r gwaith hwn dros gyfnod adrodd 2020-2025.

27 O ystyried y ffactorau uchod, rwy'n bwriadu cadw lefel uchel o hyblygrwydd yn fy rhaglen archwilio perfformiad leol a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor wrth i'r rhaglen archwilio newid.

28 Ar gyfer 2021-22 nodir y gwaith hwn isod.

**Arddangosyn 3: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2021-22**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2021-22

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG) | Manylion pellach i ddilyn. |
| Archwiliad adrodd ar welliannau | Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. |
| Sicrwydd ac Asesu Risg | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu bryd y gallai fod angen gwaith archwilio pellach yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor wrth roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau |

DRAFT

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| | gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.<br>Yng Nghyngor Sir Ynys Môn mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar:<br>• sefyllfa ariannol;<br>• cynllunio adferiad;<br>• goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn cynnwys trefniadau hunanasesu a datblygu cyd-bwyllgorau corfforedig; a'r<br>• Cynllun Lleihau Carbon. |
| Gwaith thematig – Camu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy. | Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol. |

## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

29 Gofynnwyd i mi ymgymryd â gwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant y Cyngor fel y nodir yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: crynodeb o waith ardystio hawliadau grant**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi fy rhaglen 2020-21 o waith ardystio hawliadau grant

| Enw'r cynllun | Cyfanswm Gwerth<br>(Yn seiliedig ar hawliad 2019-20) |
|---|---|
| Cymhorthdal Budd-dal Tai | £17 miliwn |
| Ffurflen Ardrethi Annomestig | £14.6 miliwn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Ffurflen Pensiynau Athrawon | £6.8 miliwn |

## Swyddogaethau archwilio statudol

30 Yn ychwanegol at archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

31 Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi rhoi unrhyw lwfans yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

## Ffi, tîm archwilio ac amserlen

32 Mae fy ffioedd a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen i'w chytuno gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd a ddisgwylir a buont yn destun adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
- mae'r wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen targedau cyflawnadwy archwilio y cytunwyd arni;
- darperir llety a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i ddarparu'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Cynrychiolaeth a gyfeirir ataf; ac
- mae rhaglen waith arfaethedig yr Archwiliad Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

33 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

DRAFT

## Ffi

34 Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2021 yn **Arddangosyn 5**. Dangosir nad oes newid i'ch ffi wirioneddol yn 2020.

**Arddangosyn 5: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2021, yn ôl maes gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon[2] | 192,000 | 192,000 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 100,390 | 100,390 |
| Gwaith ardystio grantiau[4] | 35,000-45,000 | 35,000-45,000 |
| Cyfanswm y ffi | 337,390 | 337,390 |

35 Bydd cynllunio'n parhau, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen waith archwilio, ac felly fy ffi, os daw unrhyw risgiau newydd allweddol i'r amlwg. Ni wnaf unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda'r Cyngor.

36 Mae rhagor o wybodaeth ynghylch fy ngraddfeydd ffioedd a gosod ffioedd ar gael ar ein gwefan.

## Tîm archwilio

37 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio**

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

| Enw | Swyddogaeth | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 029 20320566 | derwyn.owen@archwilio.cymru |

[1] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ac ni chodir hyn arnoch chi.

[2] Yn daladwy Tachwedd 2020 i Hydref 2021.

[3] Yn daladwy Ebrill 2021 i Fawrth 2022.

[4] Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud.

| Enw | Swyddogaeth | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Yvonne Thomas | Rheolwr Archwilio (Archwiliad Ariannol) | 029 22677830 | yvonne.thomas@archwilio.cymru |
| Gareth Evans | Arweinydd Archwilio (Archwiliad Ariannol) | 029 20829309 | gareth.evans@archwilio.cymru |
| Jeremy Evans | Rheolwr Archwilio (Archwiliad Perfformiad) | 07825 052861 | jeremy.evans@archwilio.cymru |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio (Archwiliad Perfformiad) | 029 20829349 | alan.hughes@archwilio.cymru |

## Amserlen

38 Dangosir cerrig milltir allweddol y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 7**. Fel yr amlygwyd yn gynharach, efallai y bydd angen diwygio'r amserlen yng ngoleuni datblygiadau o ran COVID-19.

39 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi hawl i etholwyr ofyn cwestiynau ac i gyflwyno gwrthwynebiadau ynghylch cyfrifon yr Awdurdod i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r hawl i ofyn cwestiynau a nodi gwrthwynebiadau adeg yr archwiliad yn gysylltiedig â hawl etholwyr i archwilio'r cyfrifon a nodir hefyd yn Neddf 2004. Gallai cyfyngiadau presennol COVID gyfyngu ar allu'r Awdurdod i hwyluso'r broses o archwilio'r cyfrifon. Felly nid ydym wedi pennu dyddiad eto ar gyfer arfer hawl etholwyr a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa cyn cadarnhau dyddiad gyda chi. Rydym yn disgwyl y byddwn mewn sefyllfa i gytuno ar ddyddiad gyda chi yn hwyr ym mis Mai 2021.

**Arddangosyn 7: Amserlen archwilio**

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wneir | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2021** | Ionawr a Chwefror 2021 | Mawrth 2021 |
| **Gwaith archwilio datganiadau ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar Ddatganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol | Mehefin i Awst 2021 | Medi 2021<br>Medi 2021<br>Hydref 2021 |
| **Gwaith archwilio perfformiad:** | Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda chi a'u nodi yn y papurau briffio prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob astudiaeth. | |
| **Gwaith ardystio grantiau** | Hydref 2021 i Ionawr 2022 | Chwefror 2022 |
| **Crynodeb o Archwilio Blynyddol** | Amh | Rhagfyr 2021 |
| **Cynllun Archwilio 2022** | Ionawr a Chwefror 2022 | Mawrth 2022 |

40 Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm i gyd yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio,cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Ebrill 2021 |
| **Pwnc:** | Newidiadau cyfansoddiadol sy'n effeithio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Rhoi manylion i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am newidiadau cyfansoddiadol sy'n effeithio ar y Pwyllgor oherwydd ymddiswyddiad aelod lleyg a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. | |

**Cyflwyniad**

1. Yn dilyn ymddiswyddiad aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gwnaed cais gan y Pwyllgor i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

2. Yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor i ostwng nifer yr aelodau lleyg sy'n ofynnol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ddau i un, nes bod darpariaethau deddfwriaeth newydd yn dod i rym.

3. Y ddeddfwriaeth newydd honno oedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Pasiodd y Senedd y Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar 18 Tachwedd 2020, union flwyddyn ar ôl iddo gael ei gyflwyno yn 2019. Derbyniodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021 ac mae'r geiriad terfynol y cytunwyd arno ar gael yn: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=26688

4. Mae'r Ddeddf yn sylweddol ac yn ymdrin ag ystod o bynciau, gan gynnwys diwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad a gweithio rhanbarthol.

5. Mae darpariaethau ‘Dod i Rym’ y Ddeddf yn gymhleth, gyda rhai darpariaethau yn dod i rym o fewn dyddiau i’r Cydsyniad Brenhinol, eraill o fewn dau fis a’r

mwyafrif trwy offerynnau statudol Gweinidogol; nad yw eu dyddiadau i gyd yn hysbys eto.

6. Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd trefniadau perfformiad a llywodraethu yn cychwyn o Ebrill 2021 (gyda'r adroddiad perfformiad terfynol o Fesur 2009 wedi'i gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2021). Yn ddarostyngedig i benderfyniad gan y Cyngor, gellir cynnal yr adolygiad cymheiriaid cyntaf yn fuan ar ôl yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

7. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddiweddariad i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2021 a gellir ei weld yn:

   http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=127&MId=3680&Ver=4&LLL=1

**Newidiadau penodol sy'n effeithio ar y Pwyllgor hwn o ganlyniad i'r Ddeddf**

8. O ran y diwygiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'r Ddeddf yn cyflwyno diwygiadau i'r drefn perfformiad a llywodraethu, gan gynnwys diddymu dyletswyddau Mesur 2009, a diwygiadau eraill y manylir arnynt isod:

**Newid enw (adran 115)**

9. Mae'r Ddeddf yn newid enw'r Pwyllgor i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'. Daeth y newid enw i rym trwy offeryn statudol.

**Cwynion (adran 115)**

10. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol, a gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â'r un peth.

**Cyfansoddiad, aelodaeth a thrafodaethau'r pwyllgor (adrannau 116-118)**

11. Yn unol â'r Ddeddf:

    - rhaid i draean o aelodau'r Pwyllgor fod yn bersonau lleyg a rhaid i ddwy ran o dair fod yn aelodau o'r Cyngor
    - rhaid i aelod o'r Pwyllgor gael ei benodi gan y Pwyllgor fel ei Gadeirydd (a rhaid i'r Cadeirydd fod yn berson lleyg); a
    - rhaid i aelod o'r Pwyllgor gael ei benodi gan y Pwyllgor yn Ddirprwy Gadeirydd (a rhaid iddo beidio â bod yn aelod o Bwyllgor Gwaith yr awdurdod lleol nac yn gynorthwy-ydd i'w Bwyllgor Gwaith).

12. Diffinnir ‘person lleyg’ gan adran 117 o’r Ddeddf fel :

- rhywun sydd ddim yn aelod nac yn swyddog unrhyw awdurdod lleol

- rhywun nad yw wedi bod yn aelod neu'n swyddog unrhyw awdurdod lleol ar unrhyw adeg yn y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n gorffen gyda dyddiad penodi'r unigolyn hwnnw; a

- rhywun nad yw'n briod neu’n bartner sifil i aelod neu swyddog unrhyw awdurdod lleol.

**Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd (adrannau 116 a 118)**

13. Bydd dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cadeirio unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor ac, yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, dim ond y rhai nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith gaiff gadeirio cyfarfodydd. Unwaith eto, daw'r adrannau hyn o'r Ddeddf i rym trwy offeryn statudol (y dyddiad cychwyn disgwyliedig yw Mai 2022).

**Perfformiad Prif Gyngor (adrannau 91-93)**

14. Rhaid i brif gyngor lunio adroddiad hunanasesu ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a rhaid iddo fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel dogfen ddrafft. Rhaid i'r Pwyllgor adolygu'r adroddiad hunanasesu drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau.

15. Os na fydd y Cyngor yn gwneud y newidiadau y gofynnwyd amdanynt, rhaid nodi'r rhesymau yn yr adroddiad. O fewn pedair wythnos i gwblhau'r adroddiad, rhaid i'r Cyngor:

- cyhoeddi'r adroddiad;

- sicrhau bod yr adroddiad ar gael i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor; a

- anfon yr adroddiad at Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, a Gweinidogion Cymru.

16. Rhaid i'r Cyngor drefnu asesiad perfformiad panel o leiaf unwaith yn ystod pob cylch etholiadol. Rhaid i'r panel ymgynghori â phobl leol, busnesau, staff ac undebau llafur ynghylch a yw'r Cyngor yn cwrdd â'r gofynion perfformiad. Rhaid i asesiad perfformiad panel adrodd ar:

- ei gasgliadau ynghylch a yw'r Cyngor yn cwrdd â'r gofynion perfformiad; ac

- argymell y camau sydd eu hangen i wella perfformiad.

17. Mae angen cyhoeddi'r adroddiad hwn ac ymateb y Cyngor (mae'n ddyletswydd ar y prif gyngor i ymateb i adroddiad asesiad perfformiad y panel) a'i rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am sylwadau.

## Argymhelliad

18. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn dilyn ei gais, ynghyd â'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Ebrill 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru - Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gethin Morgan<br>Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Pherfformiad<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**

Mae'r Adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Chwefror 2021 yn amlinellu i ba raddau y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio penderfyniadau comisiynu a chaffael ar draws pob un o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae hefyd yn darparu cyfres o argymhellion y mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn eu hystyried.

Mae'r adroddiad hwn a'r papurau cysylltiedig yn dangos yr ystyriaeth hon ac yn amlinellu sut mae'r Cyngor Sir yn disgwyl gweithredu'r argymhellion hynny dros gyfnod penodol o amser.

**Cyflwyniad**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) (y cyfeirir ati yma fel 'y Ddeddf') yn rhoi cyfle i'r sector cyhoeddus drawsnewid y ffordd y mae caffael yn cael ei gynllunio a'i gyflawni yng Nghymru. Trwy symud o ddull sy'n cael ei yrru gan broses tuag at ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau, cynigir y gallwn sicrhau bod y £6.3 biliwn a werir yn flynyddol gan y sector cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar draws pob un o'r pedair elfen llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol) ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae caffael yn un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid yng nghanllawiau statudol y Ddeddf (Pwrpas a Rennir: Dyfodol a Rennir, SPSF 1: Canllawiau Craidd) a rhaid iddo fod yn faes ffocws allweddol i gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, gan gynnwys gosod amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.

Os derbynnir (fel y dylai gael ei dderbyn oherwydd iddo gael ei nodi yn y canllawiau statudol) bod y ffordd y mae adnoddau'n cael eu gwario trwy gaffael yn gam rhesymol, yna dylai strategaeth gaffael cyrff cyhoeddus nodi'n glir sut y maent yn caffael mewn ffordd sy'n eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant sefydliadol ac yn cyfrannu felly at y saith nod llesiant cenedlaethol. Dylai hefyd ddangos aliniad clir â'r pedair elfen llesiant (diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) a sut maent wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf, sef cynllunio ar gyfer y tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Dylid adrodd ar hyn trwy'r canlyniadau a gyflawnir.

Gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, mae Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cwblhau ymchwil i sefydlu i ba raddau y mae'r Ddeddf yn llywio penderfyniadau comisiynu a chaffael ar draws pob un o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae’r adroddiad a gynhyrchwyd https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/02/ENG-Section-20-Procurement-Review.pdf yn amlinellu'r canfyddiadau ac mae'r cynllun gweithredu atodedig (Atodiad 1) yn dangos sut y bydd Ynys Môn yn cymryd camau yn unol â hynny.

**Argymhelliad**

1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi canfyddiadau'r adroddiad https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/02/ENG-Section-20-Procurement-Review.pdf

2. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo ymateb y Cyngor i'r argymhellion perthnasol a gyhoeddwyd.

**ATODIAD 1 – CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU – CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER ADRODDIAD A GOMISIYNWYD GAN GOMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU**

| **ARGYMHELLIAD** | **YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN** | **DYDDIAD TARGED AR GYFER GWEITHREDU** |
|---|---|---|
| **ARGYMHELLION AR GYFER LLYWODRAETH CYMRU** | | |
| **Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael** i wella cydgysylltu a chydweithio ac i ddarparu cefnogaeth ymarferol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt arfer eu swyddogaethau caffael, yn benodol mewn perthynas â'r Ddeddf. Byddai datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth hon yn gofyn am newid ac adolygiad cynhwysfawr o'r dirwedd gaffael bresennol (strwythurau, rhwydweithiau, partneriaethau a mentrau) a byddai angen sicrhau adnoddau i adeiladu capasiti ac i gynorthwyo gyda'r gweithredu. | Bydd y Cyngor yn ymateb i unrhyw ymgynghoriad / cais am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru wrth iddynt sefydlu'r Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ymateb i unrhyw ddiwygiad a gynigir gan y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael. | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan Lywodraeth Cymru |
| Dylai'r **Rhaglen Lywodraethu** newydd nodi'n glir sut y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth strategol ac ymrwymiad i gefnogi a chyflawni canlyniadau ehangach o ran caffael, gan ddefnyddio iaith sy'n gyson â'r Ddeddf. | Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ymateb er mwyn cyflawni'r canlyniadau caffael ehangach a bennir gan Lywodraeth Cymru | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan Lywodraeth Cymru |
| Dylai Datganiad Polisi Caffael newydd Llywodraeth Cymru ddangos yn glir sut y bydd yn cefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni dyheadau'r Ddeddf ym maes caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r Datganiad hwn, ynghyd â'r cynnydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau, gael eu hadolygu'n flynyddol. | Bydd y Cyngor yn manteisio ar unrhyw gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni dyheadau'r Ddeddf yn well | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan Lywodraeth Cymru |

**ATODIAD 1 – CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU – CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER ADRODDIAD A GOMISIYNWYD GAN GOMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU**

| ARGYMHELLIAD | YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN | DYDDIAD TARGED AR GYFER GWEITHREDU |
|---|---|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar yr holl fframweithiau caffael cenedlaethol (ac ystyried eu diwygio) i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant cenedlaethol ac yn cyfrannu atynt, a gweithredu'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf. | Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn defnyddio fframweithiau caffael cenedlaethol lle maent yn berthnasol ac o fudd i'r Cyngor.<br><br>Byddwn yn asesu'r newidiadau a wneir i'r fframweithiau caffael cenedlaethol pan gyfyd yr angen i ddefnyddio fframwaith i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir yn gyson â Strategaeth Gaffael y Cyngor. | Fel a phan ddefnyddir fframweithiau caffael cenedlaethol |
| Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r **holl ganllawiau a phecynnau cymorth** sydd ar waith ar hyn o bryd i gefnogi caffael cynaliadwy a mesur / monitro buddion cymunedol a / neu werth cymdeithasol, a chyhoeddi cynllun clir yn amlinellu sut y bydd y rhain yn cael eu diwygio / cydgrynhoi er mwyn sicrhau cysondeb yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn adrodd ar y canlyniadau llesiant a gyflawnir . | Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn asesu'r angen am system Caffael / Rheoli Contractau gwell i alluogi'r Cyngor i fesur, monitro ac adrodd ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol. Nod y system newydd hefyd yw y bydd yn ymgorffori'r Fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau fel y gall y Cyngor fesur ac adrodd ar werth cymdeithasol.<br>Bydd yr asesiad o bob system yn ystyried a ellir ei haddasu'n hawdd i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r argymhelliad hwn | Yn dibynnu ar gyhoeddi canllawiau a phecynnau cymorth diwygiedig gan Lywodraeth Cymru |
| Er mwyn cwrdd â thargedau allyriadau carbon dylai'r holl gyrff cyhoeddus nodi'n glir sut y maent wedi ystyried **effaith carbon eu penderfyniadau caffael** ac, yn achos contractau adeiladu neu seilwaith, dylent ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau fod yn sero net a / neu'n garbon niwtral. | Mae gwaith wedi cychwyn ar raglen waith i symud y Cyngor tuag at fod yn garbon niwtral. Mae £50k wedi'i neilltuo yng nghyllideb refeniw 2021/22 i ddechrau'r rhaglen.<br>Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod 2021/22 i nodi sut y cyflawnir hyn gyda'r nod y bydd y Cyngor newydd yn cymeradwyo'r cynllun yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. | Rhagfyr 2022 |

**ATODIAD 1 – CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU – CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER ADRODDIAD A GOMISIYNWYD GAN GOMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU**

| ARGYMHELLIAD | YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN | DYDDIAD TARGED AR GYFER GWEITHREDU |
|---|---|---|
| Dylai'r Ganolfan Ragoriaeth l adolygu a diwygio strwythurau ar gyfer atebolrwydd cenedlaethol a sefydlu mecanwaith priodol i graffu ar y cynnydd wrth weithredu. Dylai Llywodraeth Cymru **adrodd yn flynyddol** ar sut mae gwariant cyhoeddus cenedlaethol yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.<br>Yn ogystal, dylai eu hadroddiad blynyddol (ar gynnydd gyda'r Ddeddf) nodi'n glir sut mae eu holl wariant caffael a'u gwariant grant eu hunain yn cyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant ac at y saith nod llesiant cenedlaethol. | Mae hwn yn amlwg yn argymhelliad i Lywodraeth Cymru ond bydd raid ymgorffori gwybodaeth gan y Cyngor yn yr adroddiad.<br><br>Dylai gweithredu system Caffael / Rheoli Contractau ganiatáu i'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael |
| Dylai'r Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael ddatblygu mecanwaith neu gyfrwng i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i fonitro ac adrodd yn gyson ar y Ddeddf (gan adeiladu o bosib ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar werth cymdeithasol a'r fframwaith Themau, Canlyniadau a Mesurau newydd**) gan ddangos sut mae eu gwariant ar gaffael yn cwrdd â'r amcanion a'r nodau llesiant** | Bydd y Cyngor yn manteisio ar unrhyw fecanweithiau neu offer a ddaw ar gael sy'n caniatáu i'r Cyngor fonitro'n well i ba raddau y bydd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael |
| Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r cynnydd a wneir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru**.** Rhaid adrodd ar hyn yn yr adroddiadau blynyddol ar gyflawni eu hamcanion llesiant gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r canlyniadau cyffredinol a gyflawnir ledled Cymru a chan gyrff cyhoeddus unigol. | Mae hwn yn amlwg yn argymhelliad i Lywodraeth Cymru ond bydd yn rhaid ymgorffori gwybodaeth gan y Cyngor yn yr adroddiad.<br>Dylai gweithredu system Caffael / Rheoli Contractau ganiatáu i'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol**.** | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael |
| **ARGYMHELLION AR GYFER CYRFF CYHOEDDUS, GAN GYNNWYS LLYWODRAETH CYMRU** | | |

**ATODIAD 1 – CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU – CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER ADRODDIAD A GOMISIYNWYD GAN GOMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU**

| ARGYMHELLIAD | YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN | DYDDIAD TARGED AR GYFER GWEITHREDU |
|---|---|---|
| Dylai swyddogion uwch arweinyddiaeth adolygu eu dull a'u gweithgareddau caffael i nodi cyfleoedd i uchafu effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y penderfyniadau gwariant, gan osod camau clir sy'n dangos sut mae caffael yn cefnogi cyflawni eu hamcanion llesiant sefydliadol. | Bydd gweithredu system Caffael / Rheoli Contractau newydd ynghyd â gwaith adolygu arall a fydd yn cael ei wneud gan y Tîm Caffael yn darparu gwaelodlin i'r Cyngor mewn perthynas â'i ddull caffael.<br><br>Yna bydd y wybodaeth hon yn bwydo i mewn i Strategaeth Gaffael ddiwygiedig a fydd yn cael ei datblygu i gyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor am y 5 mlynedd yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022.<br><br>Bydd y Strategaeth Gaffael ddiwygiedig yn ystyried y pwyntiau a godwyd yn yr argymhelliad. | Rhagfyr 2022 |
| Unwaith y bydd mecanwaith neu offeryn yn cael ei ddatblygu a'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (fel yr argymhellir uchod), dylai pob corff cyhoeddus fod yn ei ddefnyddio **i fonitro ac adrodd yn glir ar ei weithgareddau**, mewn ymarferion caffael unigol ac yn gyffredinol, **a sut mae eu gwariant ar gaffael yn cwrdd â'u nodau ac amcanion llesiant**..<br><br>Rhaid adrodd ar hyn yn yr adroddiadau blynyddol ar gyflawni eu hamcanion llesiant<br><br>Er mwyn osgoi dryswch iaith ac i sicrhau bod cysylltiad â gofynion statudol y Ddeddf dylid diwygio'r derminoleg i adlewyrchu iaith y Ddeddf. | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi'r argymhelliad ar waith unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi gorffen eu hadolygiad ac wedi nodi'r gofynion adrodd ar gyfer awdurdodau lleol | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan Lywodraeth Cymru |

**ATODIAD 1 – CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU – CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER ADRODDIAD A GOMISIYNWYD GAN GOMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU**

| **ARGYMHELLIAD** | **YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN** | **DYDDIAD TARGED AR GYFER GWEITHREDU** |
|---|---|---|
| | | |
| Bydd y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu fel porth canolog i gefnogi cydweithio a gweithredu traws-sector. Mewn cydweithrediad ag eraill dylai Llywodraeth Cymru adolygu grwpiau a rhwydweithiau i gydlynu gweithgaredd yn well ar draws llywodraeth leol, iechyd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanbarthau, ynghyd â'r trydydd sector a'r sector preifat. | Bydd y Cyngor yn manteisio ar unrhyw gefnogaeth a ddaw ar gael gan y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael |
| Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus flaenoriaethu sut y gallant gydweithio a defnyddio gwariant i sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf, cyfrannu at eu hamcanion llesiant, a gwella llesiant ar lefel leol. | Bydd y Cyngor yn cyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth roi'r argymhelliad hwn ar waith | Dyddiad gweithredu i'w bennu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |

This page is intentionally left blank

# BLAENRAGLEN WAITH

## Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

**20 Ebrill 2021**

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg |
| E-bost: | MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Rhif | Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 25 Mai 2021 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Adroddiad y Cadeirydd | Mae gofyn i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adrodd i’r rhai hynny ‘sy’n gyfrifol am lywodraethiant’ (y Cyngor Sir) asesiad o’i berfformiad a’i weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos sut mae’r Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.<br><br>Gofynnir i’r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad y Cadeirydd i’w gyflwyno i’r Cyngor llawn. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| 2 | 25 Mai 2021 | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020/21 | Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno adroddiad a barn archwilio mewnol yn flynyddol, i’w ddefnyddio gan y Cyngor i gyfrannu at ei ddatganiad llywodraethiant. Mae’n rhaid i’r farn archwilio mewnol flynyddol ddod i gasgliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gyffredinol.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sicrwydd a roddwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg. | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |

| Rhif | Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|---|
| 3 | 23 Mehefin 2021 | Adroddiad Drafft y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ynglŷn â'r Datganiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2020/21 | Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roi sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol drafft 2020/21 ac i gyfrannu at y gwerthusiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethiant y Cyngor ymhellach yn ystod 2021/22. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.gov.uk<br><br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| 4 | 20 Gorffennaf 2021 | Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ynglŷn â'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2020/21 | Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. Mae gofyn i'r Pwyllgor felly:<br>• gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2020/21 gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2020/21,<br>• derbyn adroddiad yr Archwiliwr Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260, a chymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| 5 | 20 Gorffennaf 2021 | Adroddiad Blynyddol Perfformiad Yswiriant 2020/21 | Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Pwyllgor â gwybodaeth am sut mae'r Cyngor wedi rheoli ei weithgareddau sicrwydd dros y bum mlynedd ddiwethaf a'i heriau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y sicrwydd a roddwyd. | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk<br><br>Rheolwr Yswiriant a Risg JulieJones@ynysmon.gov.uk |

| Rhif | Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|---|
| 6 | 20 Gorffennaf 2021 | Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2020/21 | Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21 (Atodiad 8 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21).<br><br>Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, mae disgwyl i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor llawn ar ôl i'r Pwyllgor hwn graffu arno. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.gov.uk |